Dogfen ir Cyhoedd

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIRYNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEYCOUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2022 | TUESDAY, 6 DECEMBER 2022 |
| am 2.00 o’r gloch | at 2.00 pm |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2022.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

(a) Cynnig diolchiadau i'r cyn gynghorwyr sydd wedi ymddeol o'r Cyngor Sir cyn etholiadau mis Mai 2022.

(b) Cynnig diolchiadau wedi oedi hir i Mr Noel Thomas am ei wasanaeth fel cyn gynghorydd Cyngor Sir.

**4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Liz Wood, Derek Owen ac Aled Morris Jones:-

*Gofynnwn i Gyngor Sir Ynys Môn ystyried yr holl bosibiliadau i wneud Dydd Gŵyl Dewi'n ŵyl banc. Bydd hyn yn ein galluogi i ddathlu diwrnod ein Nawddsant a'n Diwrnod Cenedlaethol.*

**5. PENODI AELODAU O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro),<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Lewis Davies, T Ll Hughes MBE, Eric Wyn Jones, J A Roberts, Nicola Roberts a P S Rogers |

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU’R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn :-

Dywedodd y Cadeirydd fod y coronafeirws yn creu nifer o heriau. Roedd yn dymuno diolch i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion parhaus wrth gynnal a darparu gwasanaethau yn ystod y misoedd diwethaf.

* * * *

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn aelod etholedig, y Cynghorydd Allan Roberts o Gaergybi a fu farw'n ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn aelod etholedig, y Cynghorydd Glyn Jones a oedd yn cynrychioli Ward Rhosybol ar yr hen Gyngor Sir rai blynyddoedd yn ôl.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Alun Mummery sydd wedi colli aelod agos o'r teulu'n ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor neu staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Rhoddodd Aelodau a Swyddogion deyrnged dawel fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

## 3. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20 AC ADRODDIAD ISA 260

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod oedi gydag Adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Allanol a bod angen gwneud mân newidiadau i'r adroddiad o hyd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr Archwilydd Allanol yn dal i drafod ag Actiwarïaid y Gronfa Bensiwn effaith dau achos cenedlaethol ar y Gronfa sydd wedi cael effaith ar bob cronfa bensiwn. Mae'r Archwilydd Allanol wedi rhoi sicrwydd na fydd angen newid y cyfrifon ac na fydd yn newid y farn ddiamod a roddwyd gan yr Archwilydd Allanol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid geiriad yr adroddiad ISA 260 a gofynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 am yr awdurdod i gytuno ar eiriad terfynol yr ISA 260 gyda'r Archwilydd Allanol ar ran y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad a rhoi'r awdurdod i Swyddog Adran 151 y Cyngor i gytuno ar eiriad terfynol yr ISA 260 gydag Archwilydd Allanol y Cyngor.**

## 4. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd er ystyriaeth, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi, 2020.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Hydref, 2020.

Roedd yr adroddiad, y mae gofyn statudol ar yr Awdurdod ei gyhoeddi, yn darparu adolygiad o'r canlynol:-

- cynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20 fel yr amlinellwyd o dan 3 amcan blaenoriaeth (y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3);
- ei berfformiad cyffredinol gan gynnwys perfformiad yn seiliedig ar ddangosyddion cenedlaethol (dangosyddion PAM) a DPA lleol.

Amlygodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol nifer o gyflawniadau o dan y 3 amcan allweddol wrth gydnabod hefyd bod lle i wneud cynnydd pellach mewn rhai meysydd. Nododd fod 3 dangosydd perfformiad yn yr adroddiad â statws coch. Yn ogystal, cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at nifer o lwyddiannau nodedig a chyfeiriodd yn benodol at agor Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi ar ôl ei hadnewyddu, y cynllun Denu Talent sydd wedi cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc dros yr haf, a bod rhai ohonynt wedi derbyn swyddi parhaol gyda'r Cyngor, yr ystafelloedd ffitrwydd ym Mhlas Arthur a Chanolfan Hamdden Caergybi ac agor cae 3G yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Nododd hefyd fod 22 o dai cymdeithasol wedi cael eu hadeiladu a bod 102 o anheddau wedi dod yn ôl i ddefnydd ar ôl cael eu hadnewyddu. Wrth amlygu'r cyflawniadau hyn a chyflawniadau eraill, diolchodd yr Aelod Portffolio i staff y Cyngor a dywedodd na fyddai hyn wedi bod yn bosib oni bai am ymrwymiad a gwaith caled y staff. Wrth edrych i'r dyfodol, er bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ac ansicrwydd wrth ddarparu ei wasanaethau, roedd yn hyderus serch hynny y byddai'n gallu gwneud gwelliannau pellach gyda chefnogaeth ei staff a'i bartneriaid ac y byddai'n gallu cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar ran pobl Ynys Môn.

Rhoddodd pob Aelod Portffolio grynodeb o waith a gyflawnwyd o dan eu portffolio y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ac roeddent hwythau'n dymuno diolch i'r staff am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Perfformiad 2019/20 fel adlewyrchiad o waith yr Awdurdodau ac y dylid ei gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol ddiwedd mis Hydref.**

*Bu i'r Cynghorwyr Bryan Owen ac Aled Morris Jones atal eu pleidlais.*

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019/20

Cyflwynwyd, i'r Cyngor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro) fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Medi, 2020.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55 am

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 6 Rhagfyr 2022 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi Dau Gynghorydd Cymuned ar y Pwyllgor Safonau |
| **AWDUR:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@anglesey.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Penodi Dau Gynghorydd a enebwyd ar y cyd gan Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau |

**CEFNDIR**

1. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na 9 aelod gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys 5 aelod annibynnol, 2 gynghorydd cymuned (gyda'r ddwy sedd yn wag) a dau gynghorydd sir (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor Sir).

3. Rhaid i aelodau cyngor cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan y cynghorau cymuned a rhaid i'w penodiad gael ei gadarnhau gan y Cyngor.

**SWYDDI GWAG CYNGHORWYR CYMUNED**

4. Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys dau gynghorydd cymuned sy'n cymryd rhan ym musnes cyffredinol y Pwyllgor ond sy'n delio ag atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a cheisiadau am ganiatâd arbennig, dim ond pan fydd y materion hynny yn ymwneud â chynghorwyr cymuned.

5. Mae gofyniad i'r aelodau cyngor cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan yr holl gynghorau cymuned ar ôl pob etholiad llywodraeth leol (neu os bydd y naill neu'r llall yn rhoi'r gorau iddi fod yn gynghorydd). Mae aelodau cyngor cymuned yn gymwys i gael eu hail ethol i'r Pwyllgor Safonau, yn amodol ar gael enwebiad ar y cyd pellach gan y cynghorau cymuned.

6. Ar 30 Mehefin, ysgrifennodd y Swyddog Monitro at holl glercod y cynghorau cymuned yn gofyn am enwebiadau erbyn 30 Medi 2022 fan bellaf. Cafodd nodyn atgoffa ei anfon ar 12 Medi 2022. Erbyn y dyddiad cau, roedd 4 enwebiad dilys wedi eu derbyn ac ar 6 Hydref 2022, cynhaliwyd pleidlais bost gyda'r holl gynghorau cymuned yn gofyn iddynt i gyd ddewis hyd at ddau ymgeisydd gan ddychwelyd y papur pleidleisio i'r Swyddog Monitro erbyn 19 Tachwedd 2022 fan bellaf. Erbyn 19 Tachwedd 2022 roedd 16 o gynghorau tref/cymuned wedi ymateb ac roedd 31 o bleidleisiau wedi eu derbyn. Dilynwyd y broses a dilyswyd y cyfrif gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 23ain o Dachwedd 2022. Y ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:-

- **Cynghorydd Margaret Thomas o Gyngor Tref / Cymuned Llangefni a**
- **Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Tref / Cymuned Bryngwran**

7. Gofynnir i'r Cyngor Sir gymeradwyo penodiad y cynghorwyr hyn, fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau tan yr Etholiadau llywodraeth leol nesaf neu cyhyd â'u bod yn parhau fel cynghorwyr cymuned; pa bynnag un sydd gyntaf.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Yn unol â phenderfyniad ar y cyd y cynghorau tref a chymuned, cyfethol y cynghorwyr tref a chymuned canlynol ar y Pwyllgor Safonau er mwyn iddynt fod yn weithredol ar unwaith:-

- **Cynghorydd Margaret Thomas o Gyngor Tref / Cymuned Llangefni a**
- **Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Tref / Cymuned Bryngwran**

tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu tan na fydd y rhai a benodir yn aelodau cyngor cymuned; pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Llawn |
| Dyddiad: | 6/12/22 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard – Plant a Theuluoedd<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Oedolion |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Arwel Owen, Pennaeth Oedolion. |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br><br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r papur hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 i aelodau'r Cyngor Llawn. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chynnwys meysydd i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Fel y nodwyd, mae templed yr adroddiad hwn wedi'i ddiweddaru a'i foderneiddio, er mwyn gwella'r delweddu a hwyluso'r profiad darllen. Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn dilyn y cyfarfod hwn.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Sylwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad yn ofyniad statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly mae'n ofyniad gorfodol.

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

At sylw'r Cyngor Llawn.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi - ar y 6/12/22. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Ydi. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nifer o brosiectau cyfredol ac yn y dyfodol a fydd yn cefnogi'r cyngor yn ei waith i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn unol ag amcanion y Cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae pennod benodol mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol tuag at ddiwedd yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Rydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith partneriaeth a chyflwyno sylwadau ar hynny drwy gydol yr adroddiad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi cynnwys yr adborth gan Ddinasyddion Ynys Môn trwy gydol yr Adroddiad. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â | Amherthnasol - Bydd adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| | thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cymeradwywyd |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Bydd yr Adroddiad yn cael ei rannu yn ei fformat terfynol gyda'r Cyngor Llawn. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Copi o'r Adroddiad: |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Gellir gweld adroddiadau blaenorol ar Wefan y Cyngor. |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr
## ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22



# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad** 4

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf ynghylch COVID-19** 5

**Sut mae pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?** 6

**Safon Ansawdd 1** 10
Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni

**Safon Ansawdd 2** 12
Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd corfforol a meddyliol pobl

**Safon Ansawdd 3** 14
Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Safon Ansawdd 4** 16
Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

**Safon Ansawdd 5** 22
Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach

**Safon Ansawdd 6** 25
Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u gofynion.

**A Ein gweithlu a sut y Cefnogwn eu Rolau Proffesiynol** 29

**B Ein hadnoddau Ariannol a Sut y Cynlluniwn am y Dyfodol** 32

**C Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd** 34


Tudalen 11



Rhydd y ddogfen hon grynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Croesawn unrhyw sylw ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith gwella.

## PWY YDYM WEDI'U HELPU A'U CEFNOGI

**3,326** cysylltiad ag Oedolion

**4,301** cysylltiad â Phlant a'u Teuluoedd

Mae **986** o oedolion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae **1,296** o oedolion yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

Mae **400** o blant yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

Mae **179** o blant unigol yn derbyn Gofal

**96** o Ofalwyr Ifanc yn cael cefnogaeth Gweithredu dros Blant

**430** o ofalwyr wedi'u hasesu yn ystod y flwyddyn

**67** o Ofalwyr Maeth mewn **39** o Gartrefi


**264** o ddefnyddwyr System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (yr WCCIS)

Mae **120** o blant unigol ar y Gofrestr Amddiffyn Plan*

*(**48** ar ddiwedd y flwyddyn, **47** yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr trwy gydol y flwyddyn)

Tudalen 12

## EIN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021-22



Cyfanswm Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw

**£38,764,297**

Cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yw

**£27,598,582**





Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw

**£11,185,715**

Cyfanswm y cyllid grant

**£9,782,348m**





Rydym yn cyflogi

**790**

o bobl

Mae

**83%**

o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg

(L3 neu uwch)



# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad

Croeso i fy nhrydydd adroddiad yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae 2021/22 wedi parhau i fod yn flwyddyn heriol i bawb sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol ar Ynys Môn. Ymatebodd y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â gwasanaethau eraill y Cyngor, ar frys i bandemig Covid-19 ac fe wnaethom barhau i ddiwallu anghenion trigolion Ynys Môn.

Mae ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg wrth barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, yn dyst i ymrwymiad ac ymroddiad y gweithlu cyfan, ac ni allaf ddiolch digon iddynt am y cadernid y maent wedi'i ddangos.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi penodi Mr Arwel Wyn Owen yn Bennaeth Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn. Mae Arwel yn dod â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i'r rôl.

Ymddeolodd Ms Annwen Morgan, y Prif Weithredwr, ym mis Mawrth 2022 a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Annwen am ei holl waith caled a'i hymrwymiad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol tra oedd yn ei swydd a dymuno'r gorau iddi yn ei hymddeoliad. Hoffwn longyfarch Dylan Williams ar ei benodiad yn Brif Weithredwr. Bydd Dylan yn dechrau yn ei rôl newydd 21 Mawrth 2022, ar ôl bod yn Ddirprwy Brif Weithredwr cyn hynny ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Dylan i lunio a moderneiddio Gofal Cymdeithasol ar gyfer y dyfodol yma ar Ynys Môn.

O ran gweithgarwch arolygu yn ystod y flwyddyn, ym mis Mehefin 2021 estynnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol groeso rhithwir i Ynys Môn i Arolygiaeth Gofal Cymru i wirio sicrwydd y gwasanaethau oedolion a phlant yma. Canolbwyntiodd yr Arolygwyr ar:

1. Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol i gadw pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, yn ddiogel a gofalu am eu lles yn ystod y pandemig.
2. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn atal plant rhag gorfod dod i ofal; ac yn sicrhau bod plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd, lle mae'n ddiogel i wneud hynny

Braf yw nodi na chafodd natur rithwir y broses effaith andwyol ar yr ymgysylltiad â'r arolygwyr. Cadarnhaodd yr arolygwyr fod *"yr awdurdod lleol wedi parhau i gydymffurfio â'i ofynion statudol yn ystod amgylchiadau hynod heriol"* – rhywbeth a roddodd y sicrwydd i ni ein bod yn cadw'r trigolion mwyaf bregus ar Ynys Môn yn ddiogel rhag niwed.

Ceir rhagor o fanylion am ganlyniadau arolygiadau ar gyfer y flwyddyn yn adran 'Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau" yr adroddiad.

**Fôn Roberts,**
*Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd*



**Fôn Roberts**, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd



**Arwel Wyn Owen**, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion

## Pandemig Coronafeirws-19 (COVID-19)


Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd mis Chwefror 2020, a thra ein bod yn dysgu byw gyda'r firws mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn heriol. Rydym wedi gorfod addasu ffyrdd o weithio ac ymateb I'r pandemig; tra'n gorfod darparu gwasanaeth statudol.

**Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i:**

- Gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Darparwyr a chydweithwyr yn Nhîm Gogledd Cymru Gydnerth, ymhlith rhai eraill.
- Cydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Recriwtio Gofalwyr Maeth Awdurdod Lleol.
- Cefnogi ein gweithlu a'n partneriaid trwy gydol y pandemig. Parhau i redeg storfa PPE Covid-19 i reoli cyflenwadau PPE Llywodraeth Cymru, a reolir o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ar draws yr Ynys.
- Cefnogi'r broses cyfeirio profion COVID cenedlaethol.
- Addasu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i'r cyfnod pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau ac adolygiadau, gan sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau diogelu.
- Mae'r Cyngor wedi cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth gyflwyno'r Brechlyn Rhanbarthol ledled y Sir, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- Rhoi gwybodaeth a data rheoli yn rheolaidd i gynorthwyo'r ymateb brys.

Cyfanswm yr eitemau PPE a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn

Dros **4.5 miliwn** o eitemau




Nifer y mygydau a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn

**674,450**



Dros **3 miliwn (3,067,900)** o fenig tafladwy wedi'u dosbarthu yn ystod y flwyddyn



Nifer y ffedogau tafladwy a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn

Bron i **250,000**




Nifer y fisorau wyneb a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn

**17,500**



Amcangyfrif o nifer y cyflenwadau PPE a ddanfonwyd at ddarparwyr allanol yn ystod y flwyddyn

**160**



# Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Lles yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gael rhagoriaeth er gwaethaf y ffactorau allanol, heriol.

Fel gydag adroddiadau cynt, yn y ddogfen hon, byddwn yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - lles, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac atal

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar gyrff llywodraethu Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau lles a diogelwch dinasyddion Ynys Môn.

Fel y soniwyd eisoes, 14-18 Mehefin 2021, gwiriodd yr Arolygiaeth sicrwydd ein gwasanaethau oedolion a phlant, yn rhan o'u cynllun sicrwydd Cymru gyfan. Mae modd darllen copi o ganfyddiadau'r arolygiad trwy glicio ar **https://arolygiaethgofal.cymru**



## Yn gryno, dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

*"Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol dan amgylchiadau hynod heriol. Cafwyd arweinyddiaeth gref gan uwch swyddogion sydd wedi gwneud defnydd da o ganllawiau Llywodraeth Cymru i asesu arferion gwaith a chyfeirio diwygiadau yn ôl yr angen."*

*"Mae ymarferwyr a rheolwyr yn adrodd yn gyson ar gystal y cânt eu cefnogi gan arweinwyr a'r uwch dîm rheoli, ac fe siaradon nhw'n gadarnhaol am yr hyfforddiant a'r cymorth y maent wedi parhau i'w gael gan reolwyr a chydweithwyr.*

*"Mae swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol yn dangos eu hyder wrth herio ac uwchgyfeirio unrhyw symud mewn ymarfer neu unrhyw arfer nad yw'n bodloni disgwyliadau…. Erys eu pwyslais, yn gwbl briodol, ar ddatrys diffygion yn lleol a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant fel unigolion. Bydd yr awdurdod lleol yn dymuno parhau i feithrin hyder y swyddogion hyn a chydnabod eu cryfder a'u her fewnol yn ased."*

*"Mae yna gynnydd yn nifer y bobol sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol ar yr ynys."*

*"Mae gwasanaethau cymorth wedi parhau i oruchwylio cyswllt uniongyrchol rhwng plant a'u teuluoedd biolegol i gydymffurfio â Gorchmynion Llys. Dywedwyd wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cael canmoliaeth gan y Llysoedd am asesu sefyllfa teuluoedd fesul achos ac osgoi polisi cyffredinol o roi'r gorau i gysylltiad uniongyrchol, a gwelsom dystiolaeth o'r gwaith rhagweithiol hwn ar waith."*


*"Mae nifer y gofalwyr maeth sydd ar gael ar yr ynys wedi cynyddu'n ddiweddar drwy ymgyrch wedi'i thargedu, gan gynyddu'r posibilrwydd i ymarferwyr allu paru rhieni maeth i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn."*

*"Mae partneriaethau gyda darparwyr gofal a chymorth annibynnol y buom yn siarad â nhw yn dda. Cafwyd adroddiadau cadarnhaol ganddynt am sut roedd cymorth gan yr awdurdod lleol a rhwng darparwyr wedi helpu i rannu'r hyn a ddysgwyd a syniadau a chynnig cymorth drwy'r hyn y maent yn ei ddisgrifio yn gyfnod hynod anodd a thrallodus."*

*"Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i rôl o ran diogelu pobl sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio. Mae lefel dda o wybodaeth a sgiliau o fewn y tîm diogelu a pharodrwydd a hyder i ddarparu ymyrraeth broffesiynol pan fo angen."*

*"Mae yna enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thai, sydd, trwy weledigaeth gorfforaethol ar y cyd a chyllid gofal canolraddol, yn cyflawni prosiectau i gefnogi pobl i ailgysylltu ac aros yn eu cymunedau. Mae cynlluniau sy'n seiliedig ar adeiladau yn cynnwys cartrefi grwˆp bach o'r enw Cartrefi Clyd i blant, adnewyddu unedau yn Ucheldre, a chynlluniau ar gyfer trydydd cynllun gofal ychwanegol. Mae gwasanaethau cymunedol peripatetig yn cael eu cynnig trwy gydlynwyr ardal lleol."*

*"Mae aelodau arweiniol a chynghorwyr ar bwyllgorau gofal cymdeithasol ac ar draws portffolios yn dangos dealltwriaeth dda o rôl y gwasanaethau cymdeithasol a pharodrwydd i gefnogi'r awdurdod lleol i wella trwy herio ac ymgysylltu cadarnhaol."*



## Meysydd i'w gwella:

*"Mae'r pwysau presennol i ddarparu mwy o ofal a chymorth i oedolion yn eu cartrefi eu hunain yn heriol iawn mewn rhai ardaloedd o Ynys Môn fel y mae ledled Cymru….Gwaethygir y broblem hon gan anawsterau recriwtio a chadw a'r sector gofal annibynnol sy'n cael trafferth cynnal gwasanaethau drwy'r hyn y maent yn ei ddisgrifio yn gyfnod trawmatig. Mae yna gydnabyddiaeth bod gweithwyr "wedi ymlâdd, yn gorfforol ac yn emosiynol"*

*"pwysau cynyddol oherwydd nad oes seibiant oddi wrth gyfrifoldebau gofalu sylweddol, ynysu ac unigrwydd"*

*"Bydd yr awdurdod lleol eisiau sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfleoedd gwirioneddol i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i reoli eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain."*

**Cwynion, sylwadau cadarnhaol a negyddol -** Cofnodwyd cyfanswm o 229 o sylwadau cadarnhaol am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn - cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd 50 o gwynion swyddogol yn ystod y flwyddyn a chofnodwyd 65 o sylwadau/pryderon negyddol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddadansoddi'r hyn a ddysgwyd o gwynion ac i gymryd camau i wella gwasanaethau perthnasol.

**Mwy Na Geiriau** – Mae disgwyl y bydd pawb sy'n cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cynnig gwasanaeth rhagweithiol trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws holl feysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn parhau i fonitro a sicrhau bod staff **Cymraeg eu hiaith** ar draws holl feysydd y Gwasanaethau fel y gellir darparu gwasanaethau Cymraeg ar draws pob maes. Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn, rydym yn annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau iaith.

*Mae 79% o'n staff Gwasanaethau Oedolion yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5*

*Mae 88% o'n staff Plant a Theuluoedd yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5.*

Mae codi ymwybyddiaeth Mwy na Geiriau, Safonau'r Gymraeg a gofynion y **Siarter Gwasanaeth Cwsmer** yn elfen ofynnol o'r broses ar gyfer sefydlu holl staff yr adran. Mae'n bleser gennym nodi bod ein Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael canmoliaeth yn ystod y flwyddyn gan unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a hynny am ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

*"Mor ddiolchgar bod [defnyddiwr gwasanaeth] wedi cael cartref cartrefol Cymraeg"*

*"Diolch arbennig i'r genod i gyd, pob un ohonynt ar bob shifft. Roeddyn nhw i gyd yn hynod o garedig… Ers y dechrau roedden ni'n siŵr mai Garreglwyd oedd y lle gorau iddi… Mae diwylliant Cymraeg yn hollol wahanol a fyddai Mam ddim wedi bod yn gartrefol o gwbl heb y Gymraeg, y miwsig a'r canu."*

Yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol y Byd a gynhaliwyd 14-18 Mawrth 2022, buom yn dathlu ein proffesiwn trwy hyrwyddo a rhannu ein profiadau ar draws y cyngor, a mynegi ein diolch i staff y Gwaith Cymdeithasol sydd gennym yn y gwasanaeth.

**Gweler Proffeil Gweithwyr Cymdeithasol yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2022, i'w lawr lwytho yma.**

Cefais y pleser o gynrychioli Pennaeth Gwasanaethau Plant Cymru ar Grŵp Gweithredu Strategol **Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020** yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn glir bod pob math o gosb gorfforol, megis smacio, taro, slapio ac ysgwyd, bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'r gyfraith newydd yn berthnasol i bawb yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr, o 21 Mawrth 2022. Mae Cymru'n ymuno â mwy na 60 o genhedloedd ledled y byd i roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol. Mae'r ddeddfwriaeth hon, sy'n garreg filltir, yn cael gwared ar yr amddiffyniad cyfreithiol hynafol 160 oed ac yn rhoi'r un amddiffyniad i blant rhag ymosodiad ag oedolion. Wrth i'r Bil ddod yn weithredol byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cyd-aelodau yn Llywodraeth Cymru i gyfleu'r neges hon i rieni, gweithwyr proffesiynol ac, yn bwysicach, i blant a phobl ifanc yn barod ar gyfer ei weithredu.



O fis Ebrill 2022 ymlaen, byddwn yn cydweithredu ar **Bontio o'r Gronfa Gofal Integredig i'r Gronfa Integredig Ranbarthol** mewn cynllun grant newydd gyda chanllawiau newydd. Bu'n rhaid gwerthuso a chategoreiddio holl brosiectau'r Cronfa Gofal Integredig a thrawsnewid i weld pa brosiectau oedd yn bodloni'r canllawiau newydd a pha rai y gellid eu cynnwys yng nghynllun y Gronfa Integredig Ranbarthol wrth symud ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau o fewn y Gronfa wedi'u datblygu neu eu haddasu i ddiwallu'r angen presennol. Cytunwyd ar holl benderfyniadau a chamau gweithredu'r Gronfa Integredig Ranbarthol ar y cyd, ochr yn ochr â'n partneriaid, i gyrraedd potensial llawn cynllun y Gronfa Ranbarthol hon wrth symud ymlaen

O fis Ebrill 2022 ymlaen, byddwn yn cydweithredu ar **Bontio o'r Gronfa Gofal Integredig i'r Gronfa Integredig Ranbarthol** mewn cynllun grant newydd gyda chanllawiau newydd. Yn ystod y chwe mis diwethaf, bu'n rhaid gwerthuso a chategoreiddio holl brosiectau'r Cronfa Gofal Integredig a thrawsnewid i weld pa brosiectau oedd yn bodloni'r canllawiau newydd a pha rai y gellid eu cynnwys yng nghynllun y Gronfa Integredig Ranbarthol wrth symud ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau o fewn y Gronfa hon wedi'u datblygu neu eu haddasu i ddiwallu'r angen presennol. Cytunwyd ar holl benderfyniadau a chamau gweithredu'r Gronfa Integredig Ranbarthol ar y cyd, ochr yn ochr â'n partneriaid, i gyrraedd potensial llawn cynllun y Gronfa Ranbarthol hon wrth symud ymlaen. Cytunwyd yn llawn ar Gronfa Integredig Ranbarthol Ynys Môn.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid rhanbarthol i gynhyrchu'r **Asesiad diweddaraf o Anghenion Poblogaeth**. Mae rhagor o fanylion ynghyd â chopïau o'r dogfennau i'w gweld ar y ddolen a ganlyn:

**www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru**

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol nifer o adeiladau o le y darparwn wasanaethau ac rydym yn aml yn gorfod gyrru yn ôl ac ymlaen ar draws Ynys Môn. Yn hyn o beth, mae mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd yn bwysig i ni a'r Cyngor. Lansiodd y Cyngor Gynllun **Tuag at Sero Net** ym mis Mawrth 2022 ar ôl datgan argyfwng hinsawdd yn ôl yn 2020. Bydd Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 yn rhoi ymateb cydgysylltiedig y Cyngor i newid yn yr hinsawdd wrth, hefyd, hyrwyddo newid diwylliannol i sicrhau bod gwasanaethau'n lleihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr cymaint ag y bo modd.



# Safon Ansawdd 1

Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni

## Oedolion

Mae sefydlu **Timau Adnoddau Cymunedol (TAC)** ar draws Ynys Môn wedi mynd yn dda a thros y 12 mis diwethaf mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion wedi symud i weithio o dair bro **TAC** dynodedig, gydag asiantaethau iechyd ac asiantaethau partner i yrru'r agenda integreiddio gwasanaethau yn ei blaen. Cafwyd cynnydd wrth sefydlu cyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol i drafod achosion cymhleth. Mae cyllid y Gronfa Gofal Integredig wedi cynorthwyo ymdrechion i wella rhagor ar yr agenda drawsnewid.

Mae Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Ynys Môn yn lleol ac i **Gydweithrediad Rhanbarthol Gogledd Cymru,** gyda gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol wedi'i nodi yn Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018-2023.

Mae'r **Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anabledd Dysgu** wedi'i chymeradwyo'n ffurfiol a bu'n rhaid gohirio'r ymgynghoriad arfaethedig ar ddatblygu darpariaeth yn y gymuned oherwydd y pandemig. Parhaodd grŵp llywio'r prosiect i gyfarfod i symud ymlaen gyda gwaith datblygu cymunedol. Mae cyfleoedd wedi'u datblygu a'u cyd-gynhyrchu gydag unigolion yng ngogledd yr Ynys. Mae hyn yn cael ei ehangu i feysydd eraill ac yn cryfhau cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol er mwyn cryfhau gwaith integreiddio a chynnwys ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael. Caiff trefniadau comisiynu gyda darparwyr allanol hefyd eu cryfhau i sicrhau bod darpariaeth y dyfodol yn bodloni canlyniadau unigol ac yn annog dilyniant ac annibyniaeth trwy'r cymorth a gynigir.

Mae adroddiad annibynnol Gwasanaethau **Byw â Chymorth** ar Ynys Môn wedi'i gwblhau a bydd yn nodwedd allweddol o Gynllun Trosiannol ôl-bandemig y Cyngor gan sicrhau ei fod yn gallu mynd i'r afael â rheoli anghenion llety a chefnogaeth tymor hir unigolion ag anableddau dysgu a'u cymunedau ar yr Ynys. Prif ddiben yr adolygiad hwn oedd nodi cryfderau'r model gweithredu presennol a'r materion a'r heriau allweddol a wynebir gan y Cyngor wrth wreiddio'r arfer y mae'n dymuno ei weld a rheoli costau mor effeithiol ag y gallai. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o'r broses ac mae amcanion allweddol wedi'u nodi er mwyn gyrru hyn yn ei flaen a sicrhau bod oedolion ag anableddau dysgu yn cael cymorth i gael cartref am oes yn eu cymunedau lleol.

Mae'r **Gyllideb Gyfunol** rhwng y Tîm Anabledd Dysgu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar gyfer rhoi gofal a chefnogaeth a llety i bobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth, wedi symud ymlaen a bydd y gronfa yn weithredol o Ebrill 2022. Y nod yw sicrhau y nodir anghenion pobl yn gynnar ac y cânt eu bodloni mewn da bryd ac y caiff y rhwystrau arferol i ddarpariaeth, gan gynnwys cyllid, eu goresgyn trwy arferion integredig a gwneud penderfyniadau. Sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion a sicrhau y gweithredir yn integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r prosiect hwn wedi elwa ar gymorth y rhaglenni Trawsnewid Anabledd Dysgu Rhanbarthol gyda datblygiad cytundeb Adran 33 a'r cynllun gweithredu. Mae hwn yn brosiect blaenllaw fydd yn cynnig glasbrint a phecyn cymorth ar gyfer ehangu ar draws meysydd eraill.

### SA1 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**Roedd 88.32% o bobl yn byw'n annibynnol gartref ar ôl cael eu hailalluogi**

**Mae 87.2% o asesiadau Plant yn cael eu cwblhau cyn pen 42 diwrnod**

**Cwblhawyd 99% o Benderfyniadau ein Rheolwyr Gwasanaethau Plant o fewn 24 awr**

## Plant a Theuluoedd

**Teulu Môn:** Rydym wedi derbyn 3,886 o gyfeiriadau yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi ystyried opsiynau ar gyfer cyfuno Teulu Môn gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Yn ystod 2022 bydd Teulu Môn yn cael ei ymestyn i gynnwys cyfeiriadau Plant a Theuluoedd a hefyd gyfeiriadau'r Gwasanaethau Oedolion. Fel hyn, bydd modd i drigolion Ynys Môn gysylltu ag un tîm i gael mynediad at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Un Drws Ffrynt:** Mae'r un drws ffrynt yn gyfarfod amlasiantaethol sy'n trafod cyfeiriadau risg isel a chanolig lle cafodd cam-drin domestig ei gydnabod. Cafwyd adborth cadarnhaol gan Fywydau Diogel yn dilyn adolygiad o drefniadau cyfarfodydd.

**Hyb Ymyrraeth Gynnar:** Mae'r hyb ymyrraeth gynnar yn parhau i fod yn fforwm effeithiol i drafod achosion ymyrraeth gynnar. Trafodwyd 240 o blant yn yr hyb yn ystod 2021/22. Cafwyd ymweliad gan Lynn Neagle, y dirprwy weinidog dros iechyd meddwl, yn ddiweddar a chafwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â gwaith yr hyb. Wrth symud ymlaen, bydd yr hyb yn sail i strategaeth "Dim Drws Anghywir" a "Nyth" ym Môn.



## Blaenoriaethau 2022-23:

- Cyflawni ein hagenda integreiddio gyda phartneriaid iechyd a thrydydd sector yn ein Timau Adnoddau Cymunedol mewn tri safle dynodedig ar yr ynys.
- Cwblhau'r gwaith aildendro a gweithredu'r Gwasanaeth Byw â Chymorth newydd
- Ymgynghori ar ein Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anabledd Dysgu newydd, ei mabwysiadu a gweithredu arni.
- Parhau i wreiddio a hyrwyddo gwaith y Cydlynwyr Teulu a Chymuned.
- Dod â Theulu Môn a'r Pwynt Cyswllt Sengl ynghyd fel un tîm gan greu un pwynt mynediad ar draws gwasanaethau cymdeithasol Ynys Môn.

## Beth mae ein pobl yn ei ddweud?

*Diolch i chi am fod mor gefnogol a chymwynasgar yn y rôl hon, ni fyddai wedi bod yn bosibl hebddoch chi ac rwy'n falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn Ynys Môn ac rwy'n gwybod y bydd hyn yn gwella wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. (Gweithiwr proffesiynol – Tîm Adnoddau Cymunedol)*

*Roeddwn i jesd eisiau dweud bod eich agwedd yn y… Tîm Amlddisgyblaethol Adnoddau Cymunedol wedi fy nghyffwrdd y tu hwnt i eiriau ddoe. Fe roesoch amser i ni i gyd, fe wnaethoch wrando ar bob un ohonom fel tase neb wedi ein clywed erioed o'r blaen, ac fe glywsoch ein poen. Ar adegau o straen mor fawr, mae eich caredigrwydd digynnwrf a'ch meddylgarwch yn gymaint o gryfder. Rydych chi'n fodel ysbrydoledig; yn fwy fyth oherwydd fy mod yn gwybod bod gennych y fath bwysau a chyfrifoldeb eich hun. Rydych yn ymgorffori'r hyn sydd ar goll o'r systemau gofal rydym yn gweithredu yn awr.*

*Roeddwn i jesd eisiau anfon llythyr o ddiolch at (gweithwyr cymdeithasol) am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y diwrnodau diwethaf, a hefyd at y merched ar ddyletswydd. Roeddynt yn anhygoel o gefnogol, gwybodus a chymwynasgar pan oedd ei angen fwyaf arna i. Gwnaethant eu gorau glas ac maent wastad wedi cymryd fy ngalwadau a dod yn ôl ataf. Diolch, rydych chi'n gwneud gwaith gwych ac yn helpu llawer o bobl fel fi.*

*Roedd y plentyn yn gadarnhaol iawn ac yn ymgysylltu mor dda yn ystod Adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal. Roedd yn meddwl ei fod yn adolygiad da iawn a dywedodd fod (Gweithiwr Cymdeithasol) yn 'cw^l', bod rhywun yn gwrando ar ei farn.*

*Hoffwn ychwanegu fy ngwerthfawrogiad at bob un o'n Gweithwyr Cymdeithasol am y gwaith rhagorol y maent i gyd yn ei wneud. Mae'n rhaid i chi wirioneddol fod yn berson arbennig i allu gwneud y gwaith yma. A fyddech chystal â dweud wrthyn nhw nad oes gan yr holl gleifion rydw i'n siarad â nhw ddim byd ond canmoliaeth am y gwaith caled iawn maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd. Da iawn a diolch.*

# Safon Ansawdd 2

Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

## Oedolion

**Gofalwyr Di-dâl** – Drwy gydol y pandemig mae gofalwyr di-dâl wedi bod dan bwysau i gynnal eu rôl ofalu. Y pwysau cynyddol oherwydd nifer gyfyngedig yr opsiynau seibiant a chyfleoedd dydd. Mae Ynys Môn wedi gweithio mewn partneriaeth â Chynnal Gofalwyr a Gweithredu dros Blant i gefnogi gofalwyr ifanc a di-dâl i barhau drwy ddefnyddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig. Llwyddodd Ynys Môn a phartneriaid i gynorthwyo 175 o Ofalwyr dros y 12 mis diwethaf, gyda 100% o'r unigolion hyn a gyrhaeddwyd yn cael cymorth gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae copi o Adroddiad Comisynydd ar gael i'w lawrlwytho yma

Mae copi o Adroddiad Cronfa Gofal Intergredig ar gael i'w lawrlwytho yma

Mae'r tîm **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl** yn hwyluso ystod o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn cyfleoedd cymunedol a hamdden, gan wella llesiant, lleihau unigrwydd cymdeithasol a hyrwyddo gwydnwch a chymorth cymheiriaid. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau a'n cymorth wedi ailagor yn dilyn cyfnod COVID19, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a dysgu.

## Plant a Theuluoedd

Yng Nghymru, fel ag mewn llawer o wledydd eraill, mae nifer sylweddol o blant eisoes dros bwysau neu'n ordew pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac er bod bod dros bwysau yn gyffredin ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol, mae plant o gefndiroedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn ordew yn bump oed. Mae'r gwaith a wnaed drwy'r *Deg Cam i Bwysau Iach* wedi nodi'r ffactorau yn y blynyddoedd cynnar a all hybu pwysau iach ac mae gwaith helaeth wedi'i wneud i ddeall rhagor ar sut y gallwn ddylanwadu ar waith mabwysiadu arferion pwysau iachach a chynorthwyo'r gwaith hwn.

Er nad yw'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol yn derfynol ar yr ymyraethau mwyaf effeithiol a all helpu i hyrwyddo gostyngiad mewn gorbwysedd yn y blynyddoedd cynnar, mae corff cynyddol o lenyddiaeth yn awgrymu:

- Bod gweithio systemau cyfan yn effeithiol yn bwysig, gyda phob gweithiwr proffesiynol a gwasanaeth yn y blynyddoedd cynnar yn gweithio'n gyson gyda theuluoedd
- Negeseuon clir a chryno sy'n berthnasol i deuluoedd ac yn cael eu cyflwyno'n gyson ar draws y system leol
- Lleoliadau sy'n mabwysiadu arferion sy'n arddangos ymddygiad a dewisiadau iachach
- Dysgu cefnogol ymarferol i rieni a theuluoedd

Mae ein **Prosiect Peilot Plant a Theuluoedd** newydd sydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ceisio rhoi'r dulliau hyn ar brawf fel rhan o **brosiect peilot cenedlaethol dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru.** Bydd yr ymyrraeth yn gweithio gyda theuluoedd plant yn y blynyddoedd cynnar o 3-7 oed lle:

- Mae'r plentyn ieuengaf tua 91fed canradd
- Mae rhywfaint o dystiolaeth o orbwysedd teuluol

Mae'r **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**, mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant a Chyngor Gwynedd**, wedi datblygu Ap yn rhan o fenter genedlaethol i gyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer gofalwyr ifanc**. Gyda'r Ap, bydd Gofalwyr Ifanc yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu mewn ffordd gynnil a 'chyfoes'. Bydd gofalwyr ifanc sy'n dewis cael yr 'Ap AI DI' yn gallu cysylltu â'u hysgol yn uniongyrchol gyda'r swyddogaeth '*Ping My School'* i rannu gwybodaeth ac unrhyw bryderon mewn ffordd gyflym ac effeithiol. Yn rhan o'r fenter, bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth barhaus i amlygu rôl bwysig Gofalwyr Ifanc yn ein cymunedau ac yn y dyfodol bydd yr Ap/Cerdyn Adnabod yn rhoi mynediad am ddim a gostyngiadau i Ofalwyr Ifanc fanteisio arnynt.

**Dulliau Cynnar a Chadarnhaol o Gynorthwyo (EPATs)** – Mae Gwasanaethau Arbenigol Plant yn gweithio mewn partneriaeth â Mencap Môn a Mencap Cymru i gyflwyno EPATS ar draws Ynys Môn i gynorthwyo teuluoedd plant dan bump oed sydd ag anabledd dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth a dengys ymchwil hyd yn hyn bod y dull hwn yn rhoi canlyniadau cadarnhaol i'r teuluoedd sy'n cymryd rhan. Caiff y sesiynau grŵp eu hwyluso gan weithiwr proffesiynol a rhiant/gofalwr sydd â phrofiad bywyd ac mae pum unigolyn o Ynys Môn wedi llwyddo i gwblhau'r Hyfforddiant i Hwyluswyr yn gynharach eleni gyda'r bwriad o gyflwyno sesiynau ym mis Medi 2022 ac yna ar sail dreigl.



### Blaenoriaethau 2022-23:

- Parhau i weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i wella ymateb y gymuned i ymyrraeth gynnar
- Un Drws Ffrynt – parhau i ddatblygu hwn er mwyn rhoi'r gefnogaeth gywir i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig
- Agenda Atal - gwella hyn trwy barhau i ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar
- Cydlynwyr Ardal Lleol Plant

## SA2 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**Roedd angen gofal preswyl ar 458 o oedolion ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 465 yn 2020/21 a 523 yn 2019/20).**

**Roedd 307 o oedolion mewn gofal preswyl ar yr 31ain o Fawrth, 2019 (o gymharu â 327 yn 2020/21 a 316 yn 2019/20**

**Mae gan 100% o blant sy'n derbyn gofal Weithiwr Cymdeithasol wedi'i neilltuo, fel ag y mae 2019/2021.**

### Beth mae ein pobl yn ei ddweud?

*Yn bennaf oherwydd gwaith gwych (Therapydd Galwedigaethol), yr wyf yn ddiolchgar iawn amdano, mae [defnyddiwr gwasanaeth] bellach yn eistedd allan yn hapus am rhwng tair a saith awr y dydd yn ei gadair freichiau/olwyn newydd pwrpasol.*

*Cefais ofal rhagorol gan (weithwyr gofal cartref) ym mhob ffordd yr oedd ei angen arnaf. Roeddent yn broffesiynol wrth ddarparu gofal ac ystyriaeth. Rwy'n llongyfarch pob gofalwr ar ei waith. Diolch i bawb fu'n rhan o'm hadferiad ac i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.*

*Roedd yn ddiwrnod da pan anfonon nhw chi (Gweithiwr Cefnogi). Does dim geiriau i fynegi pa mor ddiolchgar ydw i*

*Mae (Gweithiwr Cymdeithasol) wedi cyfrannu'n sylweddol at gefnogi'r gwaith amlasiantaethol yn ogystal â rhoi cymorth uniongyrchol ar y cyd gyda [cydlynydd gofal] i'r person ifanc a'i rieni. Dyma safon aur gwaith tîm a phartneriaeth.*

# Safon Ansawdd 3

Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

***Mae "diogelu" yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn rhoi arweinyddiaeth a rheolaeth i drefniadau diogelu corfforaethol y sefydliad.***

## Prif lwyddiannau

- Gan weithio o fewn y cyfyngiadau newidiol fe wnaethom barhau i ymateb i unigolion, plant a'u teuluoedd fel unigolion mewn amgylchiadau unigryw. Fe wnaethom addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth bu i ni wella ar y modd y cyfathrebwn â defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Cydymffurfiwyd â'n cyfrifoldebau statudol.
- Dengys data perfformiad y gall plant a'u teuluoedd fod yn hyderus bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud i bob adroddiad ynghylch amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plant. Nid oes rhestr aros ar gyfer neilltuo achosion lle mae angen ymholiadau diogelu. Byddir yn ymateb yn gyflym ac yn gynhwysfawr i adroddiadau diogelu wrth gynnal asesiadau risg a rheolaeth â thystiolaeth. Dengys data perfformiad mai ??? % oedd lefel yr ailgofrestru dros y flwyddyn ac mai ??? diwrnod oedd yr amser cyfartalog i enw plentyn fod ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Cynhelir cynadleddau amddiffyn plant ar amser yn amlaf na pheidio gyda pherfformiad o ???%: perfformiad da wedi'i gyflawni o fewn cyfnod yn y pandemig.
- Mae swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol yn dangos eu hyder i herio ac uwchgyfeirio unrhyw symud mewn ymarfer neu unrhyw arfer nad yw'n bodloni disgwyliadau. Maent yn canolbwyntio'n gryf ar sicrhau y clywir lleisiau plant ac y defnyddir dulliau creadigol i sicrhau y byddir yn parhau i ymgysylltu â phlant drwy gydol heriau parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Mewn partneriaeth â TGPCYMRU treialwyd Gwasanaeth Eiriolaeth Rhieni i rymuso rhieni i gymryd rhan yn y broses amddiffyn plant o sefyllfa sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan siarad drostynt eu hunain lle bynnag y bo modd, ac i hyrwyddo cyfathrebu da a pherthynas waith gadarnhaol rhwng y rhieni a'r Awdurdod Lleol.
- Yn ei hymweliad sicrwydd, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru'r arbenigedd cynyddol mewn gwasanaethau oedolion ym maes galluedd meddyliol a mesurau diogelu amddiffyn rhyddid. Nodwyd bod y sampl o waith a welwyd wrth wirio'r sicrwydd o safon uchel iawn ac yn rhoi hyder y gellir diogelu oedolion sydd heb alluedd meddyliol rhag atal eu rhyddid yn ddiangen. Rydym wedi bod yn rhannu gwybodaeth a sgiliau ar draws gwasanaethau: yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion a phlant mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a chyflwyno mesurau diogelu amddiffyn rhyddid ac arfer gorau ar draws ystod o faterion.
- Cynllunio ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Mae'r gwaith cwmpasu cychwynnol wedi'i gwblhau ac mae asesiad effaith lleol, a fydd yn llywio'r cynllun ariannol, cynllun y gweithlu a'r cynllun gweithredol, ar y gweill.
- Wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu drwy gydol y pandemig i sicrhau bod ansawdd y gofal a ddarparwyd ganddynt drwy ofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal tymor hir yn parhau'n ddiogel.

**Blaenoriaethau 2022/23:**

- Parhau i ddiogelu preswylwyr mwyaf bregus Ynys Môn
- Parhau i roi'r unigolyn wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Paratoi ar gyfer dyfodiad y Safonau Gwarchod Rhyddid.

## SA3 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?



**Cwblhawyd 94.78% o ymholiadau Amddiffyn Oedolion o fewn saith diwrnod (92.31% yn 2020/2021 a 91.30% yn 2019/20)**

**Cwblhawyd 161 o asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod y flwyddyn (276 yn 2020/21 a 259 yn 2019/20)**

**O'r plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, mae 14.04% ( 6 plentyn) wedi bod ar y gofrestr o'r blaen dan unrhyw gategori yn 12 mis cofrestru diwethaf**

**318 diwrnod (ar gyfartaledd) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (224 yn 2019/20)**

**Cynhaliwyd 85.29% o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant ar amser (94.27% yn 2019/20)**

**Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal**



# Safon Ansawdd 4

Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

## Oedolion

Ar Ynys Môn, rydym wedi parhau i weithio mewn Partneriaeth **gyda Medrwn Môn a Menter Môn,** ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi symud ymlaen gyda nifer o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig yn ogystal â chyda gwaith ein Cydlynwyr Ardal Lleol.





Cynrychiolwyr o'r Hybiau Cymunedol yn yr hyfforddiant ar Deledu Clyfar.

Yn ystod y flwyddyn, mae deuddeg **Hyb Cymunedol** wedi derbyn **Teledu Clyfar**, wedi'i gyflenwi a'i ddosbarthu trwy fenter ar y cyd ag Age Cymru Gwynedd a Môn a Medrwn Môn. Rhoddwyd hyfforddiant hefyd i'r grwpiau, i sicrhau'r defnydd gorau o'r teledu.

- Gwelfor, Caergybi
- Neuadd Llaingoch
- Neuadd Goffa Amlwch
- Caffi Mechell
- HWB Cemaes
- Neuadd Bentref Trearddur
- Neuadd Bodwrog
- Canolfan Esgeifiog Gaerwen
- Neuadd Bentref Llanddona
- Neuadd Talwrn
- Neuadd y Plwyf Llandegfan
- Neuadd Goffa Llanfairpwll
- Neuadd Bentref Talwrn

## Prosiect ICAN

Mae **Cymru Iachach a Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** yn amlinellu'r angen i newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gan gynnig gofal sy'n nes at adref i bobl - gofal sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. Mae datblygiad Hybiau Cymunedol ICAN ar draws y Rhanbarth yn anelu at wella pa mor aml y mae gwasanaethau cymorth a llesiant cyfannol cyffredinol, trydydd sector a chymunedol ar gael i bobl, gwella eu hymwybyddiaeth ohonynt a'u cysylltiad â nhw, a sut y gall Hybiau Cymunedol ICAN gynorthwyo pobl, yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl lefel is neu eu helpu i gynnal eu hadferiad. Yn Ynys Môn, mae trefniadau yn eu lle i sefydlu Gwasanaeth ICAN Gofal Cychwynnol yn Hafan Cefni, Llangefni a bydd dau leoliad arall yn cael eu datblygu. Bydd y Canolfannau ICAN yn wasanaeth ymyrraeth mewn argyfwng i gynorthwyo cleifion sy'n dod i'r feddygfa mewn argyfwng neu sydd mewn sefyllfa sy'n cael effaith ar eu hiechyd a'u lles emosiynol, ac a allai gael effaith ar eu hiechyd meddwl yn gyffredinol. Yn ogystal, bydd gwirfoddolwyr ICAN mewn practisys meddygon teulu a byddant yn cynnig cymorth i bobl mewn argyfwng neu drallod emosiynol, sydd â theimladau o unigrwydd, gorbryder, unigedd a llawer o faterion cymdeithasol neu seicolegol eraill, nad oes angen ymyrraeth feddygol neu asesiad seiciatrig arnynt o reidrwydd. Roedd adroddiad diweddar yn Chwarter 2 2021 gan ICAN yn nodi nifer yr unigolion oedd wedi cael cymorth a nifer y Cyfeiriadau at y Gwasanaeth.



| Hyb ICAN y Gorllewin | Ynys Môn |
|---|---|
| Nifer y bobl a gefnogwyd trwy Hyb Cymunedol ICAN | 653 |
| Nifer yr Ymyraethau a Gynigiwyd trwy Hyb Cymunedol ICAN | 1265 |
| Nifer y cyfeiriadau a dderbyniwyd gan Feddygfeydd | 241 |
| Nifer y cyfeiriadau a dderbyniwyd gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol | 118 |
| Nifer yr hunangyfeiriadau at Hyb cymunedol ICAN | 77 |
| Nifer yr unigolion a gefnogwyd trwy wasanaethau ar-lein | 21 |

**Tîm Gweithredu Lleol y Gorllewin –** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ni fu i'r tîm yma gyfarfod oherwydd ymrwymiadau partneriaid wrth ymateb i'r pandemig. Mae Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru (ymateb rhanbarthol i'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl cenedlaethol), wedi nodi angen i adolygu'r Timau Gweithredu Lleol er mwyn sefydlu sut maent yn ffitio i mewn i benderfyniadau lleol ac isranbarthol. Y bwriad yw cynnal gweithdy adolygu i Dimau Gweithredu Lleol y gorllewin ddiwedd mis Ebrill 2021.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â **Môn Actif** i greu cyfleoedd i unigolion â **dementia** gael mynediad at weithgareddau lleol ***Dementia Active*** yn ein canolfannau hamdden. Mae swydd *Dementia Active* yn swydd amser llawn a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig a bydd yn rôl allweddol wrth ddatblygu'r **Strategaeth Dementia leol.** Mae'r gronfa hon hefyd wedi ariannu nifer o brosiectau eraill sy'n cyfrannu at y strategaeth fel bod modd i unigolion â dementia gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cywir ac i fod mor annibynnol â phosibl ar eu taith dementia.

**Mae copi o adroddiad strategaeth ddementia ar gael yma**

## Plant a Theuluoedd

Rydym yn falch o'n perthynas waith gyda'r Adran Ddysgu ac Ysgolion Ynys Môn. Rydym yn rhannu gweledigaeth gyffredin sef cynnig cyfle i bob dysgwr ar Ynys Môn ddysgu a datblygu i fod yn aelod llawn o'i cymdeithas.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid ar Ynys Môn yn 2021-22 wedi bod yn canolbwyntio ar gynnal cymaint o gyswllt wyneb yn wyneb â phosibl â'n pobl ifanc o fewn y cyfyngiadau a osodwyd arnom oherwydd covid, a hyn mewn cyfnod pan oedd llawer o sefydliadau yn cysylltu drwy bell yn unig, ac mae llawer yn parhau i wneud hynny. Gwnaed hyn trwy waith mewn ysgolion, Gwaith Allgymorth ac, ers mis Chwefror, yn ôl mewn 17 o Glybiau Ieuenctid Mynediad Agored.

Yn sgil y penderfyniad i barhau gyda chymaint o waith wyneb yn wyneb â phosibl, roedd y gwasanaeth y trydydd awdurdod lleol uchaf drwy Gymru o ran y ganran o bobl ifanc a gyrhaeddwyd yn ystod y flwyddyn hon yn Adroddiad Blynyddol Hyb Meincnodi Cymru. Cawsom wasanaeth allgymorth yn ystod anterth y pandemig oedd yn cerdded y strydoedd ac yn ymgysylltu â phobl ifanc allan yn eu cymunedau. Mae Swyddog Ieuenctid Ysgol ac Ardal yn dal i fod gan y Gwasanaeth Ieuenctid ym mhob Ysgol Uwchradd, lle maent yn cyflwyno sesiynau un i un, sesiynau gwaith grŵp ar Iechyd a Lles, maent ar gael ar gyfer sesiynau galw heibio anffurfiol i'r bobl ifanc yn ystod amser cinio ac mae ganddynt hefyd grŵp LGBTQ+ amser cinio. At hyn, mae ganddynt Ganolfan Gwobrau Agored Dug Caeredin ym mhob Ysgol Uwchradd. Mae'r Gweithwyr Ieuenctid hefyd yn gyfrifol am y Clybiau Ieuenctid Mynediad Agored yn y gymuned ynghyd â thîm o weithwyr rhan amser. Roedd hwn yn fodel cyflwyno a gyflwynwyd yn 2014 ac sydd bellach wedi gwreiddio'n dda gyda'r holl ysgolion. Cawsant eu canmol mewn arolygiad diweddar o'r gwasanaeth gan ESTYN wrth edrych ar effaith COVID-19 ar bobl ifanc.

**Dathlu:** Roedd Ynys Môn hefyd yn un o'r ychydig Awdurdodau a lwyddodd i alluogi ein pobl ifanc i gwblhau eu Gwobrau Dug Caeredin eleni. Gwnaethpwyd hyn trwy weithio'n agos gyda'r tîm Asesu Risg Corfforaethol i sicrhau bod gan y gwasanaeth ganllawiau COVID-19 llym yn eu lle. O ganlyniad i hyn, Ynys Môn oedd â'r ganran uchaf o bobl ifanc oedd yn cwblhau eu Gwobr ledled Cymru (168 o ddechreuwyr ac 82 wedi cwblhau) . Mae gennym 248 wedi cofrestru ar gyfer y flwyddyn nesaf i gymryd rhan ar lefelau amrywiol yn gweithio ar eu Gwobr. Mae hon yn gyfradd dechrau o 125% o gymharu â'r llynedd, ac mewn cyd-destun mae llawer o awdurdodau eleni yn ei chael hi'n anodd, gan fod dan 50% i'r lle 'roeddynt cyn covid.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid ddau Gwrs Preswyl eleni gyda'r Urdd, i gyd ar gyfer disgyblion Oedran Uwchradd, wedi'i ariannu gan grant Llywodraeth Cymru. Cafodd 126 o bobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn Gweithgareddau Awyr Agored a chael amser i ganolbwyntio ar eu lles corfforol a meddyliol a hefyd ar ehangu gorwelion. Cafodd pobl ifanc a dargedwyd ar gyfer penwythnosau'r Gwasanaeth Ieuenctid eu hadnabod yn ddisgyblion bregus a thargedodd yr Urdd gyflawnwyr uchel a allai fod wedi bod yn cael trafferth gyda lles meddwl wrth ddychwelyd i'r ysgol. Roedd adborth o sesiynau preswyl y gwasanaeth ieuenctid yn dangos bod llawer o'r bobl ifanc yn gweld y penwythnos yn brofiad unwaith mewn oes.

## Dyfyniadau gan bobl ifanc mewn perthynas â thaith i Lan-llyn:

*"Yr amser gorau i mi ei gael erioed a dydw i erioed wedi rhoi cynnig ar ddim o'r gweithgareddau o'r blaen"*

*"Y mwyaf o fwyd i mi ei weld a'i fwyta erioed"*

*"Pryd gawn ni fynd nesaf?"*

Tudalen 28

Mae prosiect **TRAC a Ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop** yn parhau i gyflawni yn yr ysgolion gan gynorthwyo dros 300 o bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio o Addysg. Bydd y rhan fwyaf wedi ennill rhai achrediadau erbyn diwedd y prosiect. Mae'r prosiect wedi cynnig cyfle i lawer o bobl ifanc fynd ar gyrsiau amgen i'r cwricwlwm craidd sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol e.e. wyth ar Gwrs Byd Gwaith gyda Grŵp Llandrillo Menai a saith yn mynd ar y Cyrsiau Paratoi Milwrol gyda MPTC. Mae 12 hefyd wedi cael y cyfle i fynd ar Gwrs Therapi Ceffylau 12 wythnos, un wedi cael Gwersi Gitâr ac, ar draws yr holl Ysgolion Uwchradd, bydd cyrsiau dydd megis Meddwl yn Reddfol, Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd wedi'u cwblhau, ynghyd ag unedau Agored Cymru ar Iechyd a Lles, Rheoli Dicter ac ati. Yn anffodus, bydd y prosiect TRAC yn dod i ben ddiwedd mis Awst a, hyd yma, nid oes cyllid wedi'i nodi i gymryd ei le.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a TRAC hefyd wedi cyflwyno sesiynau gan ddarparwyr e.e. yn sgil '*Prison Me No Way*' aeth 64 o bobl ifanc ar gwrs tridiau ar ganlyniadau ymddygiad treisgar neu dor-cyfraith; Mae pedair o'r pum Ysgol Uwchradd wedi cael y cyfle i anfon grŵp blwyddyn gyfan am sesiynau gyda'r prosiect '*Gangs Get Away*' a chafodd 65 o bobl ifanc o'r grwpiau LGBTQ+, ddiwrnod o weithgareddau yng Nghanolfan Conwy yn Llanfairpwll, gan ganolbwyntio eto ar Weithgareddau Awyr Agored ac Iechyd a Lles.




Daeth **Prosiect AdTrac** i ben ym mis Awst, ar ôl pedair blynedd lwyddiannus yn cynorthwyo pobl ifanc NEETS (Ddim mewn addysg, cyflogaeth na Hyfforddiant) i gael cyflogaeth neu i'w cael yn nes at y farchnad gyflogaeth. Yn ei le, sefydlwyd tri Hyb Llesiant a Chyflogaeth ym Mhorthaethwy, Llangefni a Chaergybi. Hyd yma, maent wedi gweithio gyda 45 o bobl ifanc 16-24 oed, yn eu cynorthwyo gydag ystod o faterion o risg digartrefedd, problemau cyflogadwyedd a lles corfforol a meddyliol. Cwblhaodd wyth o bobl ifanc Gwrs Adrenalin Uchel yn ddiweddar, a chwblhaodd wyth hefyd gwrs chwe wythnos ar Ewinedd. Byddant nawr yn symud ymlaen i Raglenni Hyfforddiant Cyflogadwyedd neu i Brofiad Gwaith.

**Dathlu:** Rhwng gwaith staff craidd y Gwasanaeth Ieuenctid, Prosiect TRAC ac AdTRAc, yn ôl y data a gyflwynwyd i Hyb Meincnodi Cymru, Ynys Môn oedd yr Awdurdod sydd â'r ganran uchaf o bobl ifanc yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol (45.5%) o gymharu ag 8.9% yn gyfartaledd cenedlaethol Cymru.









Pobl ifanc yn cymryd rhan yn y Cwrs Preswyl yng Nglan-llyn gyda Gwasanaethau Ieuenctid Ynys Môn.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23

- Hyrwyddo a datblygu'r hyn a gynigiwn i'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol
- Cynllunio Blaenoriaethau'r Gweithlu / cynllunio Dilyniant mewn Gwasanaethau Oedolion
- Cefnogi gofalwyr yn unol â'r Strategaeth Dementia Ranbarthol.

## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**99.65% o Oedolion yn cael eu gwasanaeth yn eu dewis iaith (99.03% yn 2019/20)**

**67 o Ofalwyr Maeth Ynys Môn (61 yn 2020/21 a 52 yn 2019/20) sy'n golygu bod yna fwy o ddewis o ran lleoliadau i blant mewn gofal yn Ynys Môn**



## Beth mae ein pobl yn ei ddweud?

*Mae (Therapydd Iechyd Galwedigaethol) wedi mynd y tu hwnt i gynorthwyo fy rhieni a sicrhau bod fy nhad yn dal i symud o gwmpas. Roedd y Therapydd Iechyd Galwedigaethol yn allweddol wrth nodi'r hyn oedd ei angen yn y cyfarfod, yn gwrando ar bryderon ac yn trafod ffyrdd o fynd i'r afael â nhw. Mae'r Therapydd Iechyd Galwedigaethol wedi cael yr eitemau sydd eu hangen ar fy nhad, wedi ein helpu trwy awgrymu lle gallwn ni ddod o hyd i offer i ddiwallu anghenion fy nhad ac ymweld â chartref fy rhieni i ddangos i'r gofalwyr sut mae offer yn gweithio a, thrwy hynny, roi sylw i'w pryderon.*

*Fy niolch diffuant i'r merched mewn coch (gan gyfeirio at ein Tylluanod y Nos, sy'n gwisgo iwnifform coch), sydd wedi fy helpu i gael cawod a fy rhoi yn fy ngwely, fy nysgu i ymdopi, troi anobaith yn obaith, Y merched gwych hyn mewn coch.*

*Diolch yn fawr i (staff) am yr holl gymorth a chefnogaeth yn ystod y cwrs, mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n cartref a'n ffordd o fyw fel teulu mewn cyfnod mor fyr. Diolch. [ynghylch cwrs rhiantu Jig-so]*

*Ysgrifennodd mam at y gweithiwr am y newidiadau cadarnhaol y mae hi wedi gallu eu cyflawni ers gweithio gyda hi – Tîm Teuluoedd Gwydn.*

*Dywedodd mam ei fod yn frawychus yn wreiddiol gweithio gyda'r gwasanaethau plant ond roedd y profiad wedi bod yn un cadarnhaol drwy weithio gyda (Gweithiwr Cymdeithasol) ac y bu canlyniad da i'r teulu.*

## Safon Ansawdd 5

Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach

### Oedolion

Mae **Taliadau Uniongyrchol** unwaith eto wedi dangos pa mor hyblyg y gall y cynllun fod i gleientiaid. Oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 sydd yn eu lle i bobl gael eu derbyn i gartrefi gofal, mae Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo rhai cleientiaid i gael seibiant gartref yn lle'r seibiant blynyddol y gallent fod wedi'i gael mewn cartref gofal. Mae hyn wedi rhoi dewis i'r cleient, gan y gallai fod wedi mynd heb gymorth, a hefyd mwy o reolaeth/hyblygrwydd o ran pryd y mae am ddefnyddio'r seibiant/cymorth a phwy sy'n rhoi'r gwasanaeth hwn iddo. Mae hefyd wedi bod yn ffordd o gyfyngu ar gyswllt rhwng cymaint o bobl a bo modd trwy, o bosibl, gael yr un Cynorthwy-ydd Personol yn unig gyda nhw yn hytrach na mwy nag un gofalwr o bosibl mewn cartref gofal.



**Dathlu:** Ddiwedd mis Mawrth 2022 mae gennym 238 o gleientiaid dan Daliadau Uniongyrchol, i fyny o 220 y flwyddyn flaenorol.

| | |
|---|---|
| **Gwariant Taliadau Uniongyrchol Dros Dro eleni:** | **£2,060,008.75** |
| **Arbedion rhagamcanol o gymharu â gwasanaethau a gomisiynir:** | **£948,542.72** |

Gyda llacio yn y cyfyngiadau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae cynnydd wedi'i wneud o ran hyrwyddo a cheisio recriwtio darpar gleientiaid a Chynorthwywyr Personol, ac rydym nawr yn gobeithio y gallwn ddechrau rhoi'r prosiect ar waith yn ystod y flwyddyn 2022/23.

Fel Awdurdod, rydym wedi ymrwymo i gynyddu rhagor ar y Taliadau Uniongyrchol ar Ynys Môn. Rydym yn falch o gadarnhau ein bod wedi recriwtio Swyddog Taliadau Uniongyrchol newydd a fydd yn dechrau yn ei rôl ym mis Mai 2022 ac rydym, hefyd, yn hysbysebu am ail swyddog i gefnogi a hyrwyddo'r gwaith hwn i ddatblygu rhagor ar y cynllun Taliadau Uniongyrchol.

Mae **Tylluanod y Nos** yn wasanaeth integredig dan arweiniad Gyngor Sir Ynys Môn i gynorthwyo unigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth arbenigol 24 awr. Mae'r gwasanaeth yn lleihau nifer y bobl sy'n mynd i gartrefi gofal ac ysbytai yn ddiangen, yn arbed diwrnodau gwely mewn ysbytai, yn lleihau galwadau ambiwlans ac yn cynorthwyo gyda derbyn pobl i'r gymuned, oll wedi'i ariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig.

Drwy gydol y flwyddyn cefnogodd y gwasanaeth tylluanod y nos:

- 120 o unigolion i aros yn y gymuned
- 30 o ofalwyr i gynnal eu rôl ofalu
- 96 o alwadau WAST (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru)
- Cafodd 100% o unigolion yr hyn sy'n bwysig iddynt.

## Plant a Theuluoedd

Mae Tîm **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn** wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y tri maes Perfformiad Cyfiawnder Troseddol Allweddol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru; **Cyfraddau Troseddwyr Tro Cyntaf** lle mae niferoedd yn parhau i fod yn isel, 0 oedd ein **Defnydd o'r Ddalfa** yn 2021-22 (2 yn 2020-21) ac er bod **Cyfraddau Aildroseddu** wedi aros yn ystyfnig o uchel yn y blynyddoedd diwethaf, roedd y tîm Rheoli a'r Bwrdd Strategol yn falch o weld rhai newidiadau cadarnhaol yn chwarteri 2 a 3. Mae perfformiad y gwasanaeth yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid eraill yng Ngogledd Cymru a Chymru.

Mae ein pedwar Dangosydd Lles yn dangos perfformiad amrywiol dros y 12-18 mis diwethaf, mewn mannau sy'n adlewyrchu'r cymorth rhagorol a gawn gan ein partneriaid mewn awdurdodau lleol ac yn y bartneriaeth ehangach. Fodd bynnag, dengys arwyddion bod Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar berfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Mae achosion o darfu mewn ysgolion a chyfleoedd cyflogaeth a llai o hyfforddiant wedi arwain at ffigurau *presenoldeb a chynnig* gwael. Mae cymorth **llety** yn elwa'n fawr ar ein perthynas effeithiol ag adrannau tai a gwasanaethau plant ac mae dylanwad ychwanegol ffigurau perfformiad ein Swyddog Tai Gogledd Cymru sydd ar secondiad wedi parhau'n dda drwy gydol y flwyddyn.

At ei gilydd, mae ein perfformiad o ran cyrraedd targed **Asesiad o Gamddefnyddio Sylweddau a'r Driniaeth** wedi bod yn dda i dda iawn. Mae'r gwasanaeth yn elwa'n fawr o gysylltiad agos â Thîm Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Gwynedd a Môn '*Be di'r Sgôr*' sydd yn y gwasanaeth a gweithio mewn partneriaeth â'r tîm.



## Cyfeiriadau a Llwyth Achosion - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn

Mae'r rhifau cyfeirio isod ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

| Rheswm dros gyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Cyfeiriadau Ion 2021 – Rhag 2021 |
|---|---|
| **ATAL/YMYRRAETH GYNNAR** | |
| Hysbysiad Cerdyn Melyn | 310 |
| Cais am Oedolyn Priodol | 25 |
| Cais am Wasanaethau Atal Tîm Troseddau Ieuenctid | 42 |
| Datrysiad Cymunedol (Heddlu) | 21 |
| Cyfeirio at y Biwro (CR+) | 77 |
| **SANCSIWN FFURFIOL** | |
| Rhybudd Ieuenctid | 2 |
| Rhybudd Amodol Ieuenctid | 28 |
| Gwasanaethau Llys Tîm Troseddau Ieuenctid | 35 |
| **CYFANSWM** | **540** |

- Ers 2019 mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu **Ymyraethau Gwytnwch Seiliedig ar Seicoleg ar gyfer plant yn y System Gyfiawnder**. Y canlyniadau yw; doethuriaeth lwyddiannus a phecyn ymyraethau a gymeradwyir yn academaidd (gan gynnwys deunyddiau ategol proffesiynol) sy'n barod i symud ymlaen i dreialon clinigol (Medi 2022). Mae'r adnoddau hyn wedi ennyn cryn ddiddordeb yn y sector ac yn adrannau ehangach y Llywodraeth gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi.
- Mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint a Phrifysgol Bangor (Adran Droseddeg) mae'r gwasanaeth wedi cwblhau papur ymchwil lefel Meistr ar **Anghenion Merched Ifanc yn y System Gyfiawnder**. Mae'r papur yn dal i fod ar ffurf drafft ar hyn o bryd a'r bwriad yw defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd i ddylanwadu ar waith cynllunio strategol lleol ac i fwydo i mewn i broses casglu data cenedlaethol ar gyfer gwella arfer.



### Blaenoriaethau 2022/23:

- Llunio'r farchnad mewn perthynas â gofal Oedolion Hŷn
- Paratoi Adroddiad Lleol a Rhanbarthol ar Sefydlogrwydd y Farchnad
- Hyrwyddo rhagor ar fanteision Taliadau Uniongyrchol

## SA5 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**99.20% o oedolion sy'n ofalwyr ac y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion trwy eu hawl eu hunain (98.90 yn 2020/21 a 98% yn 19/20)**

**Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi yn ystod y flwyddyn - 214 (252 yn 2020/21 a 362 yn 19/20)**

**7 o blant yn dychwelyd adref at y rhiant o fod yng ngofal yr Awdurdod Lleol**



## Beth mae ein pobl yn ei ddweud?

*Diolch am y gwaith gwych yr ydych yn ei wneud yn gofalu am [defnyddiwr gwasanaeth] a'r holl breswylwyr eraill – yn enwedig yn y cyfnod anodd iawn hwn.*

*Roeddwn i jesd eisiau trosglwyddo rhywfaint o adborth cadarnhaol. Roedd yn rhaid i Weithiwr Cymdeithasol a minnau fynd i siarad â [defnyddiwr gwasanaeth]. Hi a gymerodd yr awenau yn y drafodaeth hon ac roedd y ffaith y gellid trafod y mater yn Gymraeg yn hollbwysig i [defnyddiwr gwasanaeth] roi ei ymddiriedaeth ynon ni. Roeddwn i'n meddwl bod y ffordd yr esboniodd hi'r sefyllfa i'r teulu yn wych. Gofalgar iawn, clir, a dealltwriaeth o'r sefyllfa anodd y mae [defnyddiwr gwasanaeth] ynddi. Dw i ddim yn siwˆr y byswn i wedi cael yr un canlyniad taswn i wedi cael y drafodaeth honno gyda [defnyddiwr gwasanaeth] ar fy mhen fy hun,.*

*Diolchodd mam mewn cynhadledd i (gweithiwr cam-drin domestig) am ei holl gefnogaeth, dywedodd y fam ei bod wedi mwynhau gweithio gyda (Gweithiwr Cam-drin Domestig) a'i bod wedi dysgu llawer ganddi, dywedodd y fam ei bod wedi ei helpu i ddeall ei gorffennol ac mae wedi ei helpu gyda'r presennol, mae hi'n falch iddi ddod i mewn i'w bywyd.*

*Wrth edrych yn ôl i'r man cychwyn, rwy'n teimlo ein bod wedi goresgyn llawer o frwydrau trwy gyngor a chymorth.*

*Mae'r tîm o amgylch y teulu wedi rhoi'r offer a'r wybodaeth i mi fedru delio â sefyllfaoedd dirdynnol megis camymddwyn ac ymddygiad drwg. Rwyf bellach yn gwybod sut i ddelio'n iawn gyda'r ymddygiadau yma mewn ffordd effeithiol ac mae wedi helpu i sefyllfaoedd beidio â mynd allan o fy rheolaeth, fel oedd yn digwydd cyn y cymorth gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu.*

*Roeddwn i jesd eisiau dweud diolch i chi. Rydyn ni'n dau wedi gwerthfawrogi eich gwaith gyda'n teulu yn fawr ac yn enwedig eich agwedd onest ac uniongyrchol. Rydyn ni wedi gwerthfawrogi bod y plant yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw a'ch bod chi wedi rhoi eu lles nhw yn gyntaf, ac rydyn ni wedi gwerthfawrogi gallu ymddiried ynoch chi i beidio â throi ein geiriau na chwilio am broblemau lle nad oes rhai. Roeddwn i eisiau dweud diolch gynnon ni ac ar ran ein plant hefyd,*

# Safon Ansawdd 6

Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.

## Oedolion

Mae'r Adran wedi ymrwymo i ehangu'r ystod a'r dewis o opsiynau llety sy'n **cefnogi byw'n annibynnol** ac yn falch o gyhoeddi ein bod wedi adnabod safle a chael cymeradwyaeth i symud cynllun yn ei flaen ym **Mhorthaethwy**. Yn ystod y flwyddyn buom yn gwerthuso profiadau defnyddwyr gwasanaeth a drosglwyddodd i lety gofal ychwanegol yn **Llangefni Hafan Cefni a Phenucheldref**. Y bwriad yw bod y wybodaeth hon yn helpu i sicrhau yr ymgorfforir nodweddion dylunio poblogaidd a datblygu elfennau sydd wedi bod yn boblogaidd gyda defnyddwyr gwasanaeth.





Map o Gynllun Gofal Ychwanegol arfaethedig Porthaethwy




Rydym wedi buddsoddi mewn **"byrddau dementia"** ar gyfer pob un o'n cartrefi gofal preswyl mewnol. Mae'r byrddau wedi'u cynllunio'n arbennig i gynorthwyo unigolion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein. Yn y llun isod mae defnyddiwr gwasanaeth yn defnyddio un o'r Byrddau Dementia newydd.

Caiff y Swyddog Pontio'r Cenedlaethau ei gyflogi gan **Gynghrair Seiriol (Biwmares)** a'i gefnogi gan **Fenter Iaith Môn**, a'i ariannu gan y Gronfa Gofal Integredig (Cronfa Integredig Ranbarthol) er mwyn cefnogi pob cenhedlaeth yn ne'r Ynys.
Ffurfiwyd y prosiect oherwydd pryder ynghylch safon y Gymraeg ymhlith plant yr Ynys, oherwydd iddynt golli amser yn eu hysgolion o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd ysgolion ac arweinwyr addysg wedi mynegi pryder bod y Gymraeg ymhlith plant yn debygol o ddirywio. Nod y prosiect oedd cefnogi'r Gymraeg yn y gymuned, y tu allan i'r dosbarth.

Ochr yn ochr â phryderon am yr iaith ymhlith plant, roedd pryderon bod pobl hŷn ein cymunedau yn dioddef o unigrwydd yn fwy na neb yn ystod y cyfnod pandemig, ac nad oedd cyfle i ymarfer eu Cymraeg gyda chyfoedion. Felly roedd datblygu prosiect pontio'r cenedlaethau a **bod o fudd i'r Gymraeg** yn y gymuned ymhlith plant a phobl hŷn yn gwneud synnwyr llwyr.

Un o amcanion y prosiect o'r enw "Ein Hanes Ni" oedd cynorthwyo cymunedau'r Ynys i gyrraedd y **'pum cam at lesiant'**, sef bod plant yn cael cysylltu â'r genhedlaeth hŷn, cymryd sylw o'u hamgylchedd a'u pentrefi drwy ddysgu ffeithiau hanesyddol a chymryd yr amser i gysylltu â'r genhedlaeth hŷn sy'n gallu teimlo'n unig ac ynysig. Mae'r un peth yn wir am y genhedlaeth hŷn – eu bod yn cael rhannu eu straeon a dysgu am y ffyrdd modern o gyfathrebu a dysgu, megis trwy Youtube a'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Cofnodwyd y sgwrs yn gyntaf ar ffurf llythyr, ac yna ar ffurf ffilm. Cafodd ei rhyddhau ar y Cyfryngau Cymdeithasol i bawb ei mwynhau. Dangoswyd y ffilm yn y caffi lleol am wythnos i'r criw hŷn nad oedd ganddynt fynediad i'r Cyfryngau Cymdeithasol na chyfrifon iddynt.

Ceir rhagor o wybodaeth wrth wylio
**https://www.youtube.com/watch?v=Tirf_88IW9Y** a/neu
**https://www.youtube.com/watch?v=5juaabE_iwg**.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Bu i ni adrodd y llynedd bod gennym ddau **Gartref Grŵp Bach** – a adwaenir fel **"Catrefi Clyd Môn"** – sydd wedi'u cofrestru ac yn cael eu defnyddio – Cartref Clyd Bryn Hwfa, a Chartref Clyd Llanfair, – y ddau wedi bod yn llawn drwy gydol y flwyddyn, yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma yn ystod plentyndod cynnar ac sy'n cael trafferth ag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, rydym ar hyn o bryd yn agosáu at agor trydydd Cartref, Cartrefi Clyd Môn Caergybi, cartref grŵp bach arbenigol a fydd yn gyfle i blant a gaiff cymorth y gwasanaethau plant arbenigol gael seibiant.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, byddwn yn gweithio tuag at agor y pedwerydd eiddo, sydd ar hyn o bryd yn ei gyfnod cofrestru - sef Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

Rydym hefyd yn gweithio yng nghyfnod cynllunio a chofrestru Catrefi Clyd Môn Llangristiolus a fydd yn gyfleuster modern yn arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer ein Gwasanaethau Arbenigol Plant.



Sesiwn Cymunedol Bryngwran



## Ynys sy'n Wybodus am Drawma:

Mae gwaith sylweddol wedi'i gwblhau i hyfforddi nifer o Ofalwyr Maeth, athrawon a staff Plant a Theuluoedd i ddod yn wybodus am drawma a llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cwblhau'r Diploma mewn bod yn wybodus am Drawma yn ystod 2021/22. Ein nod yw dod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma drwy gynnig yr hyfforddiant a'r sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff eraill a'n partneriaid a'n cydweithwyr yn y trydydd sector yn ystod 2021/11. Mae hwn yn gynllun arloesol ac uchelgeisiol i Ynys Môn ac rydym yn hyderus y bydd y ffyrdd hyn o ymarfer yn lleihau nifer y lleoliadau maeth sy'n chwalu ac yn cefnogi plant i gael canlyniadau gwell o'u lleoliadau addysgol a gartref.

Ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd gan **Faethu Cymru Môn** (Gwasanaeth Maethu Ynys Môn) gyfanswm o 67 o deuluoedd maeth, yn cynnwys:

- 39 o aelwydydd maethu prif ffrwd
- 28 o bobl gysylltiedig yn maethu aelwydydd,

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn falch o gadarnhau ein bod wedi parhau i recriwtio, asesu, cymeradwyo a rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i ofalwyr maeth Ynys Môn yn ystod y pandemig. Yn ystod 2021/22 bu i ni gymeradwyo:

- chwe aelwyd maethu prif ffrwd (cyffredinol), gyda thair arall ar fin dod gerbron y panel yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- naw aelwyd personau cysylltiedig (teulu a ffrindiau), (mae hyn yn cynnwys dwy a aeth yn syth wedyn i Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig).

Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi a chadw ein Gofalwyr Maeth o fewn y gwasanaeth ac wedi datblygu rolau cymorth penodol ar eu cyfer. Rydym hefyd yn cymedroli'r gwasanaeth trwy ddarparu gliniaduron i'n Gofalwyr Maeth fel nad ydynt yn gorfod dibynnu ar gofnodion papur.

Ar gyfer y Pythefnos Gofal Maeth diwethaf, a gynhaliwyd 10-23 Mai 2021, dathlwyd bod holl Awdurdodau Lleol Cymru wedi uno i ddod yn un – Maethu Cymru. Mae'n sefydlu un hunaniaeth sy'n hawdd ei hadnabod i bawb yng Nghymru fel eu Gwasanaeth Maethu Awdurdod Lleol.

Roedd yr ymgyrch Lansio yn canolbwyntio ar agor drysau i blant a phobl ifanc yn ofalwyr maeth. Dyma ein Gofalwyr Maeth yn cymryd rhan yn yr ymgyrch recriwtio benodol honno:

maethu cymru | foster wales
Môn Anglesey



## Gwasanaethau Tai

Rydym yn falch iawn o'r berthynas gydweithio ragorol sydd gennym gyda'n cydweithwyr tai. Nod Strategaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn 2022-27 (gweler y ddolen isod) yw sicrhau bod gan bobl Ynys Môn le i'w alw'n gartref a'u bod wedi'u grymuso ac yn cyfrannu at eu cymuned leol. Mae gwaith comisiynu effeithiol a rhoi cymorth sy'n ymwneud â thai o safon yn elfen hanfodol o gyflawni'r nod hwn.

**https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Housing/Housing-policies-plans-and-strategies/Local-Housing-Strategy/Anglesey-Local-Housing-Strategy.aspx**

Mae Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru yn fframwaith ariannu allweddol a ddyrennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru i:

- gynorthwyo i helpu i atal digartrefedd
- cynorthwyo i helpu pobl i fyw'n annibynnol
- cynorthwyo i helpu pobl i fyw yn eu cartref, hostel neu dŷ gwarchod eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn 2021/22, cyfeiriwyd y niferoedd a ganlyn am gymorth yn ymwneud â thai trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl:

| | | |
|---|---|---|
| **Chwarter 1** | 1af Ebrill – 30ain Mehefin 2021 | **= 253** |
| **Chwarter 2** | 1af o Orffennaf - 30ain o Fedi 2021 | **= 281** |
| **Chwarter 3** | 1st October - 30ain o Ragfyr 2021 | **= 229** |

### Blaenoriaethau 2022/23:

- Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith ar gyfer y Gofal Ychwanegol i'r de o'r Ynys.
- Adolygu'r Strategaeth Llety gyda'n Partneriaid Tai
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi.
- Cartrefi Clyd - agor un eiddo arall yn ystod 22/23
- Cynyddu mwy ar nifer Gofalwyr Maeth Ynys Môn a'u cadw



## SA6 – Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**Roedd 99.65% o oedolion yn gallu trafod eu problemau yn ystod eu hasesiad / hailasesiad yn eu dewis iaith.**

**Roedd 44.44% o'r rhai oedd yn Gadael Gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ddwy flynedd ar ôl gadael gofal.**

### Beth mae ein pobl yn ei ddweud?

*Gwnaeth y teulu rywfaint o waith yn yr ardd yn gwneud potiau blodau a'u llenwi â blodau i ddweud diolch am y gefnogaeth y maent wedi'i chael drwy'r pandemig (mewn perthynas â Chartref Gofal y Cyngor)*

*Diolch i chi'ch dau am y gefnogaeth rydych chi'n ei rhoi i ni. Rydyn ni'n hoffi'r ffordd rydych chi'n ein helpu ni i ddod yn ôl ar y trywydd iawn. Rydyn ni'n hoffi'r llythyrau rydych chi'n eu hysgrifennu ar ddiwedd pob cyfarfod. Rwy'n eu darllen nhw eto pan fyddwch chi wedi mynd. Mae'n gwneud i mi deimlo fel petaech wedi gwrando ar yr hyn yr wyf wedi'i rannu, gyda diddordeb a dealltwriaeth a'ch bod yn adlewyrchu hyn mewn ffordd mor hyfryd gyda'ch llythyrau. Maen nhw'n gwneud i mi deimlo bod gen i bwrpas mewn bywyd. Mae'r adborth rydych chi'n ei roi o'r pethau rydw i wedi'u rhannu, y sylwadau cadarnhaol rydych chi'n eu rhoi yn gwneud i mi deimlo'n falch ohonof fy hun am fod lle rydw i rŵan ... Roedd yr ymarfer a wnaethom yn ddiddorol iawn ac yn hwyl. .. Rwy'n edrych ymlaen at ein hymweliad nesaf yn barod.*

*Dywedodd rhiant fod Bryn Hwfa yn anhygoel a'i fod yn bwysig iawn i'r plentyn a'i deulu. Aeth y rhiant ymlaen i ddweud bod (aelod o staff) yn dda iawn gyda'r plentyn a bod ganddo ddealltwriaeth dda o'r plentyn. Dywedodd y rhiant fod y plentyn yn mynd yn hynod gyffrous o wybod ei fod yn mynd i Fryn Hwfa a bod cyfathrebu da iawn rhwng y staff a'r rhieni. Dylid nodi mai Bryn Hwfa yw'r unig le y bydd y plentyn yn mynd iddo'n hapus.*

Mae Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru i roi cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach yn Ynys Môn.

Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu i'r gweithlu ac achubir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n hawdurdodau lleol cyfagos, y GIG ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun. Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir fel y'u nodir yng Nghylchlythyr Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Effeithiwyd eto ar y cynllun a luniwyd ar gyfer 2021/2022 oherwydd y pandemig, ond roedd y dulliau hyfforddi digidol sefydledig o bell a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol wedi bod yn amhrisiadwy i sicrhau parhad digwyddiadau dysgu. Oherwydd y cyfyngiadau ar y gallu i gynnig sesiynau wyneb yn wyneb/ystafell ddosbarth, fodd bynnag, effeithiwyd ar rai rhaglenni allweddol a chyfyngwyd ar eu nifer h.y. sgiliau digidol; iechyd a diogelwch; codi a chario ac ati.

## Nodir Meysydd Blaenoriaeth  a Heriau/Llwyddiannau Allweddol isod:

- **Platfform E-ddysgu - Cronfa Ddysgu -** Eto, dibynnwyd yn fawr ar ddefnyddio modiwlau E-ddysgu yn un o'r dulliau allweddol o ddysgu fel y dangoswyd gan y 567 o fodiwlau (gofal cymdeithasol penodol) a gwblhawyd. Prif ganolbwynt y Dangosfwrdd Gofal Cymdeithasol oedd sicrhau bod yr holl fodiwlau ar gael yn ddwyieithog tra bod swyddogaeth y Dangosfwrdd Rheolwyr yn cael ei lansio a'i fod ar gael i nifer o sefydliadau partneriaeth gydag adborth cadarnhaol iawn.
- **Bwletinau Partneriaeth –** Parhaodd y tîm i ddarparu diweddariadau cyfathrebu rheolaidd o ffynonellau allweddol e.e. Diweddariadau Iechyd/Llywodraeth/Sector Gwirfoddol ac ati drwy'r bwletin misol sydd ar gael drwy'r Gronfa Ddysgu/a gylchredir yn electronig.
- **Lleoliadau Myfyrwyr –** Roedd heriau o ran bodloni'r gofynion wrth weithio o fewn cyfyngiadau Covid a'r gofyn am asesiadau risg ychwanegol. Fodd bynnag, cwblhaodd deg myfyriwr eu lleoliadau yn llwyddiannus.

Sesiynau Hyfforddi e.e. Sicrhawyd bod "Arfer Myfyriol a Chysylltiadau Myfyriol" a mynediad at fecanweithiau cymorth i ddatblygu gwydnwch ar gael iddynt.

Penodwyd un Hyfforddai Gwaith Cymdeithasol newydd a dau Therapydd Galwedigaethol dan Hyfforddiant (y cyntaf ers nifer o flynyddoedd i'r Awdurdod).

- **Cynlluniau/hyfforddiant Iechyd a Lles –** Canolbwyntiwyd ar wydnwch staff eto gyda rhaglenni allweddol e.e. Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl/Ymwybyddiaeth o Bryder/Cwnsela/Ymwybyddiaeth Ofalgar yn cael eu cynnig er mwyn annog staff i gymryd rhan a bod yn hunanofalus.

Mae sesiynau lles mewnol wedi'u cynnwys yn y cynllun gyda siaradwyr gwadd yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd staff i amlygu pwysigrwydd Iechyd a Lles a pha  fath o gymorth sydd ar gael.

- **Cartrefi Grŵp Bach/Gwasanaethau Arbenigol Plant -** Er bod cyfyngu ar hyfforddiant wyneb yn wyneb, trefnwyd hyfforddiant arbenigol ar gyfer y gweithlu hwn o amgylch ataliaeth gorfforol i gefnogi cynlluniau gofal defnyddwyr gwasanaeth. Cafodd asesiadau risg eu llunio'n ofalus gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth ac Iechyd a Diogelwch, er mwyn sicrhau y cynhelid yr hyfforddiant hwn, y rhoddwyd blaenoriaeth iddo, yn llwyddiannus.
- **Gofalwyr Maeth –** trefnwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau hyfforddi, gyda thua 14 o gyrsiau wedi'u trefnu yn ogystal â nifer o sesiynau partneriaeth ar y cyd a gynhaliwyd gydag awdurdod cyfagos. Roedd y

mynediad hyblyg i hyfforddiant yn parhau i weithio'n llwyddiannus iawn ac roedd modiwlau wedi'u targedu'n benodol ar gael a chyfanswm o 51 ohonynt wedi'u cwblhau.

- **Sgiliau Digidol –** Fel y nodwyd, roedd y ffaith nad oedd modd cyflwyno sesiynau dosbarth yn parhau i gael effaith ar y rhaglen a gynlluniwyd. Fodd bynnag, parhaodd cefnogaeth barhaus fel bod modd i staff allu gael mynediad i ddigwyddiadau hyfforddi e.e. drwy Zoom/MSTeams, a hynny wrth gynhyrchu "Canllawiau Sut i Wneud" a hyfforddiant 1-1 ar-lein i gynorthwyo gyda materion cysylltu. Yn ogystal, rhoddwyd benthyg gliniaduron hyfforddi fel bod mwy o gyswllt â digwyddiadau dysgu, gydag adnoddau ychwanegol yn cael eu nodi i gefnogi mwy ar agenda Sgiliau Digidol.
- **Cefnogi Cofrestru -** Cynigwyd sesiynau penodol yn llwyddiannus ar-lein i gefnogi staff gyda chofrestru yn ogystal â datblygu rhaglen gymorth Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan oedd yn cynnwys nifer o weithdai yn ymdrin â chynnwys llyfrau gwaith (1- Gwerthoedd ac Egwyddorion, 3 – Iechyd a Lles, 5 – Ymarfer Proffesiynol a 7- Iechyd a Diogelwch).

Cyfyngwyd ar y gallu i gynnal arsylwadau yn gynharach yn y flwyddyn gyda threfniadau amgen yn cael eu gwneud e.e. trafodaethau/tystiolaethau yn cael eu cynnal gan Reolwyr/Dirprwy Reolwyr i gefnogi cynnydd. Fodd bynnag, mae Aseswyr wedi gallu dychwelyd yn araf i gynnal arsylwadau mewn lleoliadau gwaith. Er gwaethaf yr amgylchiadau anodd iawn y mae staff wedi bod yn gweithio ynddynt, mae'n glod enfawr iddynt fod saith aelod o staff wedi cwblhau eu cymwysterau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau yn llwyddiannus. Mae 17 aelod arall o staff wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau yn cynnwys; Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 2 a lefel 3 mewn Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol, Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli, Lefel 5 Rheolaeth mewn Gofal a Dyfarniadau Dementia L2 ac L3.

- **Rhaglen Addysgwyr Ymarfer Gogledd Cymru** - Yn ystod y cyfnod hwn enillodd pum gweithiwr cymdeithasol ychwanegol y wobr yn cynrychioli Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn ogystal ag aelod o staff o Asiantaeth Maethu.
- **Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso -** Penodwyd chwe Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso, pedwar yn y Gwasanaethau Plant a dau yn y Gwasanaethau Oedolion. Roedd pump wedi cyflawni hyn drwy Bartneriaeth Prifysgol Bangor ac un wedi'i gefnogi drwy Gynllun Hyfforddeiaeth yr Awdurdod a Chwrs y Brifysgol Agored.

Bu i ni barhau i gefnogi Ymarferwyr Newydd Gymhwyso trwy eu tair blynedd gyntaf o ymarfer sy'n cynnwys y Rhaglen Gadarnhau a Phorth Agored, gyda phedwar aelod o staff yn cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn ystod 2020-21. Mae deg o ymarferwyr wedi'u cofrestru ar y rhaglen ar hyn o bryd.

**Cymwysterau Proffesiynol –** Yn rhan o strategaeth cynllunio gweithlu'r awdurdod, mae staff wedi'u hannog a'u noddi i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol. Mae dau wedi cwblhau'r Cyn-gwrs Proffesiynol Iechyd Meddwl Cydnabyddedig (Pre-AMHP) ac un wedi cofrestru ar y cwrs Proffesiynol Iechyd Meddwl Cydnabyddedig (AMHP) yn ddiweddar. Mae 1 ymarferwr wedi cwblhau'r rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm (TMDP) yn llwyddiannus gyda dau ymarferwr newydd yn cofrestru ar y rhaglen hon, gyda rhagor o ddiddordeb ar gyfer y Grŵp nesaf. Yn ogystal â hyn, mae un ymarferwr wedi cwblhau'r hyfforddiant Aseswr Lles Gorau (BIA).

**Diogelu –** yn ogystal â'r ddarpariaeth arferol o sesiynau diogelu cyffredinol a gynigir i'r gweithlu gofal cymdeithasol, mae ystod o gyrsiau arbenigol ychwanegol hefyd wedi'u hyrwyddo.

Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu pwysig drwy gydol y flwyddyn ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Bu i ni hyrwyddo Wythnos Diogelu ym mis Tachwedd 2021; trefnu digwyddiadau hyfforddi amrywiol gan gynnwys Hapchwarae a Meithrin Perthynas Amhriodol Ar-lein; hyfforddiant i gefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth Diogelu Rhyddid newydd.

**Mwy na Geiriau -** Mae'r rhaglen Hyfforddiant Iaith ar gael i staff sy'n dymuno dysgu, gwella neu ddatblygu hyder yn eu gallu o'r Gymraeg. Mae ystod o adnoddau Datblygu'r Gymraeg wedi'u cynnig dros y flwyddyn ddiwethaf; gan gynnwys cyrsiau preswyl 'Dysgu Cymraeg'; gwersi wythnosol; sesiynau hunan-astudio a magu hyder ar-lein. Trefnwyd gweithdy Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol a hyfforddeion galwedigaethol yn

rhan o'u cyfnod sefydlu oedd yn cynnwys cyflwyniad a chyfle i bawb rannu profiadau a myfyrio.

Mae tudalen newydd wedi'i chreu ar ein cronfa ddysgu i gynorthwyo gyda hyrwyddo ac arddangos yr holl opsiynau sydd ar gael i holl staff ac aelodau'r bartneriaeth.

**Recriwtio** – Dros y 12 mis diwethaf mae'r tîm wedi gweithio'n frwd i hyrwyddo cyflogaeth/hyfforddeiaethau a lleoliadau gwaith.

Mae Ynys Môn yn cael ei chynrychioli'n weithredol yn y grŵp rhanbarthol Gofalwn Cymru, gan gefnogi'r ymgyrch yn llawn trwy gyfrannu at y cynllun gwaith; rhannu mentrau recriwtio/denu gyda'r rhanbarth; hyrwyddo cyfleoedd gwaith a defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr awdurdod i rannu digwyddiadau/negeseuon allweddol.

Cynhaliodd y tîm Adnoddau Dynol ffair yrfaoedd bwrpasol i ddenu darpar ymgeiswyr i'r sector gofal tua diwedd 2021, gyda swyddogion ar gael i siarad â nhw am gyfleoedd datblygu swyddi/gyrfa a rhoi cymorth i lenwi ffurflenni cais ac ati.

Mae cysylltiadau partneriaeth cryfach wedi datblygu rhwng y tîm Hyfforddiant a Sefydliadau Addysg Bellach lleol gyda thrafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal i edrych ar fwy o weithio mewn partneriaeth fel bod myfyrwyr Gofal Cymdeithasol yn cael profiad cyfoethog o weithio yn y sector gofal; yn cael syniad gwell ohono ac yn cael mwy o wybodaeth. O ganlyniad i hyn, datblygwyd rhaglen lleoliad gwaith unigryw, **Camau at Ofal**. Nod y prosiect yw bod y myfyrwyr yn mynd ar leoliad gwaith ystyrlon gydag adnoddau e.e. llawlyfr myfyrwyr; log myfyriol i gynorthwyo yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae cyfyngiadau Covid wedi amharu rhywfaint ar gynnydd, fodd bynnag mae'r lleoliadau bellach i fod i ddechrau ddiwedd mis Mawrth/Ebrill 2022.

## Crynodeb

Wrth i ni symud ymlaen, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol ac amserol yn cael eu cynnig i staff ar draws y sector Gofal Cymdeithasol fel bod gan y gweithlu'r sgiliau, y rhinweddau a'r galluoedd i roi'r lefel a'r ansawdd angenrheidiol o wasanaeth.

Wrth nodi hyn, mae hi hefyd yn hanfodol sicrhau bod mentrau lles yn parhau i fod yn ganolbwynt yn y cynllun sydd i ddod er mwyn cynnal a datblygu gwydnwch. Rhan allweddol o'r cynllun hefyd yw ailgysylltu a symud ymlaen â'r strategaeth ddigidol er mwyn sicrhau bod modd cael at wybodaeth a chyfleoedd hyfforddi cymaint â bo modd.



Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus ac estynedig. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos tanwariant o £(891k) i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020/21.

Gorwariodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd £(754k). Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n ddiflino i gynnal lefel y Plant sy'n Derbyn Gofal, ac mae gostyngiad bach yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (160 ar 31-03-2021) o gymharu â (161 ar 31-03-2020) yn dyst i hyn. Roedd y tanwariant i'w briodoli'n bennaf i'r isod ond nid yn gyfyngedig iddo:

£(143k) Costau Staffio yn sgil arian grant, £(266k) yn y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal oherwydd i dri lleoliad gael eu hariannu o Gronfa Caledi Covid19, *£(211k)* yn y gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn sgil cyllid grant unwaith ac am byth a £(108k) yn y Gwasanaethau Ieuenctid. Roedd hyn, yn bennaf, oherwydd bod gweithgareddau wedi'u hatal yn sgil pandemig Covid19.

Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi gorwario £(136k) yn 2020/21 o'i gymharu â gorwariant o £1,138k yn 2019-20. Mae'r gostyngiad mewn gorwariant yn ganlyniad uniongyrchol i neilltuo cyllideb ychwanegol o £(980k) i'r Gwasanaethau Oedolion yn 2020-21, gyda'r nod o roi sylw i'r tanariannu hanesyddol, yn ogystal â chynnydd yng ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru, o £(670k) yn 2019-20 i £(894k) yn 2020-21. Mae'n werth nodi hefyd bod grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu ymhellach o £(894k) yn 2020-21 i £(1,110k) yn 2021-22. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus i sicrhau bod y cyllidebau'n cael eu neilltuo i'r gwasanaeth cywir, yn unol â phwysau galw ac, yn hyn o beth, bydd gwaith yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i gysoni cyllidebau Pobl Hŷn/yr Uned Ddarparu.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio ariannol effeithiol sydd wedi'u rheoli'n dda ac mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen gylchol o gynllunio a chraffu gwaith pennu a monitro cyllidebau.

Yn y tabl isod amlinellir cyfrifon ariannol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020/21:

| | **Cyllid £** | **Gwirioneddol £** | **Gwahaniaeth £** |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | *11,185,715* | *10,816,126* | *(369,589)* |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | |
| Pobl Hŷn | *9,116,244* | *9,058,516* | *(57,729)* |
| Anableddau Corfforol | *2,136,486* | *2,336,529* | *200,043* |
| Anableddau Dysgu | *6,959,225* | *7,599,208* | *639,983* |
| Iechyd Meddwl | *2,268,365* | *2,254,193* | *(14,172)* |
| Gwasanaethau Cymorth | *1,426,773* | *1,188,953* | *(237,820)* |
| **Uned Ddarparu** (Gofal Môn/ Gwasanaethau Eraill) | *5,691,489* | *4,877,818* | *(813,671)* |
| **Cyfanswm** | ***38,784,297*** | ***38,131,342*** | ***(652,955)*** |



# C Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethu gwleidyddol o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn yn ystod cyfnod o her sylweddol yn sgil pandemig Covid-19 a llacio ar y cyfyngiadau. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a chraffu'r cynnydd yn bwyllog.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd ac wyth Deilydd Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Ddeilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi parhau i oruchwylio ein 'gwelliannau' yn wleidyddol a sut yr ydym wedi ymdrin â heriau ymdrin â'r pwysau a welwyd fel rhan o'n rôl yn ymdrin â'r pandemig. Gwelir yr effeithiolrwydd cynyddol hwn yn y modd y rhoddwyd blaenoriaeth i'r rhai mwyaf bregus yn ein plith wrth roi cymorth yn ystod y flwyddyn ariannol. Adlewyrchir hyn yn dilyn Arolygiad Sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mehefin 2021 lle cadarnhawyd bod ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'n Gwasanaethau Oedolion yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Panel Aelodau Etholedig a sefydlwyd ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn parhau â'i waith o bell ac wedi gweld parhad yn safon y gwaith y mae staff yn ei roi wrth ofalu am ein preswylwyr mwyaf bregus. Mae'r agenda, sydd wedi'i ailsefydlu yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac sy'n gweithredu mwy o bell, yn goruchwylio agenda gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Daw aelodaeth y panel o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol ac mae'n parhau i roi'r cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan yr adran, gan arwain at graffu gwell.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi'i gydnabod yn gryfder mewn adroddiadau arolygu allanol yn y gorffennol ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion yn parhau i chwarae rhan weithredol yn agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol trwy ddull cydweithredol.

Fel y bu yn yr ychydig flynyddoedd a aeth heibio, mae trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn eu lle trwy Gwmni Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gellir gweld rhagor o dystiolaeth o ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi yma yw sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn eu gwasanaethu'n well trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a'r awdurdodau lleol yn well.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedwyd yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn a phobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (WCCIS). Mae disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i wreiddio ei harferion gwaith ymhlith gwasanaethau ac mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sefydledig yn goruchwylio cyrff cyhoeddus ac yn sicrhau eu bod yn cydweithio i greu dyfodol gwell i bobl Cymru.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwaith ymgynghori a gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r **Trydydd Sector** trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r grŵp partneriaeth trydydd sector sydd wedi hen ennill ei blwyf wedi'i ailsefydlu yn sgil cyfnod o fyfyrio oherwydd effaith Covid19. Mae bellach wedi cael y dasg o gyflawni yn erbyn amcanion y Cyngor a sicrhau y cedwir at dechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid ar draws y gwahanol sefydliadau.



## Perfformiad

1. Mae fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor wedi'i wreiddio yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor ac y gallai ei waith monitro nodi materion cyn y ceir unrhyw tanberfformio - rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaeth i'r dinesydd. Mae hyn wedi'i wneud bob chwarter trwy gerdyn sgorio corfforaethol a gwaith dau fwrdd rhaglen trawsnewid corfforaethol. Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod ein model gweithredu yn berthnasol ac yn gyfredol. Er bod hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o safon y gwasanaeth a roddir gan y **Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** yn ystod 2022/23, bydd angen adolygu a blaenoriaethu'n lleol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol yn seiliedig ar gyfeiriad newydd Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y data Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gael yn hawdd er mwyn dadansoddi perfformiad ar yr adeg iawn.



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Y Gwasanaethau Cymdeithasol**
Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

**www.ynysmon.gov.uk**

Cysylltwch â ni ar:
Ffôn: 01248 751887
E-bost: EmmaEdwards@ynysmon.llyw.cym



Dilynwch ni

Dechrau'n Deg Gofal Plant a Chwarae Môn Ysgolion Iach Cyn Ysgol

This page is intentionally left blank